



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid

Fframwaith Adfywio Newydd

11 Mawrth 2013

Ffotograffau ar dudalennau 4, 9, 13, 17, 22 a 43
© Hawlfraint y Goron (2011) Croeso Cymru



Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN argraffu 978 0 7504 9175 4

ISBN digidol 978 0 7504 9178 5

© Hawlfraint y Goron 2013

WG17660

Cynnwys

1. Crynodeb gweithredol	4
2. Rhagair – y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth	7
3. Y cyd-destun – Beth sydd wedi newid a beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?	9
4. Ein diffiniad, ein gweledigaeth a'r canlyniadau a ddymunir	13
5. Ein hegwyddorion a'n dulliau o weithredu	17
6. Ein fframwaith adfywio newydd	22
6.1 Cyflawni mewn ffordd gydgysylltiedig	22
6.2 Y fframwaith cyflawni newydd, rolau allweddol a llywodraethu	31
6.3 Buddsoddi	35
6.4 Monitro a gwerthuso	40
7. Yr amserlen weithredu	43



1. Crynodeb gweithredol

Ein diffiniad, ein gweledigaeth a'r canlyniadau a ddymunir

Dylai pawb yng Nghymru fyw mewn cymunedau llewyrchus, cynaliadwy, llawn addewid, sydd â chysylltiadau da, economi leol gref ac ansawdd bywyd da – dyna'n **gweledigaeth**.

Ein **diffiniad** o adfywio yw "set integredig o weithgareddau sy'n ceisio gwrthdroi dirywiad economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a ffisegol a sicrhau gwelliannau parhaol mewn ardaloedd lle na fydd grymoedd y farchnad yn gwneud hynny ar eu pen eu hunain heb ryw gymaint o gymorth oddi wrth y llywodraeth".

Dyma'n **canlyniadau cenedlaethol**:

- *Cymunedau ffyniannus*
Caiff yr amcan hwn ei gefnogi gan amryw o weithgareddau ar y lefel ranbarthol a lleol a fydd o gymorth i sicrhau'r canlyniadau a ganlyn:
 - lefelau gwell o weithgarwch economaidd a mwy o swyddi;
 - economïau lleol cryf ac amrywiol, lle mae'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn gweithio gyda'i gilydd;
 - cymunedau sydd â chysylltiadau da, gan gynnwys cysylltiadau trafnidiaeth a chysylltiadau band eang;
 - defnydd cynaliadwy o'r amgylchedd naturiol er mwyn sefydlu ffyrdd o gynhyrchu ynni a bwyd yn lleol;
 - sector preifat a mentrau cymdeithasol llewyrchus;
 - canol trefi a chymunedau arfordirol llwyddiannus;
 - amgylchedd hanesyddol a naturiol sy'n cael ei reoli'n dda, sy'n cyfrannu at gymeriad unigryw tirwedd ac aneddiadau Cymru a lle mae treftadaeth a chymeriad hanesyddol yn cael eu diogelu, eu gwerthfawrogi a'u cynnal.
- *Cymunedau sy'n dysgu*
Mae cysylltiad agos iawn rhwng adfywio a sgiliau a gallu unigolion, teuluoedd a chymunedau. Bydd ein hymyriadau ym maes adfywio yn helpu i:
 - greu gweithlu medrus a hyderus, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol;
 - creu diwylliant o anelu'n uchel yn lleol;
 - creu cysylltiadau â chyfleoedd dysgu yn yr ysgol, ym maes addysg ôl-16 ac ym maes addysg oedolion;

- creu cyfleoedd clir i ddatblygu cyfalaf cymdeithasol a diwylliannol ac i gryfhau cydraddoldeb;
- sicrhau bod pobl yn credu mewn gwell dyfodol.
- *Cymunedau iachach*
Mae iechyd a lles y trigolion yn gwbl greiddiol er mwyn creu lleoedd sy'n llawn bywyd. Bydd gweithgareddau adfywio yn helpu i sicrhau:
 - cymunedau iach a chydlynus sy'n gallu tyfu a gweithio gyda'i gilydd;
 - ardaloedd lleol diogel;
 - tai da sy'n fforddiadwy ac sy'n cynnig dewis o ran deiliadaeth;
 - amgylchedd lleol cynaliadwy, o ansawdd da;
 - hunaniaeth leol gadarnhaol a chynhwysol;
 - adeiladau, amwynderau a chyfleusterau o safon, a gynlluniwyd yn dda ac sy'n cael eu defnyddio mewn modd priodol.

Ein hegwyddorion a'n dulliau o weithredu

Dyma'n **hegwyddorion** ar gyfer adfywio effeithiol:

- *partneriaeth*, sy'n golygu bod yr holl sectorau'n cyfathrebu â'i gilydd yn effeithiol ac yn cydweithio, gan ddefnyddio arferion da, gan arddel cydraddoldeb, ac arloesi;
- *strategaeth*, a ategir gan raglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac sy'n cyfuno arweinyddiaeth ddeinamig â llywodraethu cadarn, gan gynnwys gwaith monitro a gwerthuso, er mwyn sicrhau gwerth am arian;
- *datblygu cynaliadwy*, sef prif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru, sy'n galluogi buddsoddiad yn y tymor hir drwy brosiectau a gynllunnir ac a gyflawnir yn lleol, o fewn strategaeth gyffredin a rennir.

Dyma'n **dulliau gweithredu allweddol**:

- defnyddio *tystiolaeth* gadarn o bob math i gyfiawnhau strategaethau a phenderfyniadau buddsoddi;
- cyfuno gwelliannau i *leoedd* â chymorth i'r bobl sy'n byw ynddynt.

Ein fframwaith adfywio newydd

Mae dau faes allweddol yn y fframwaith newydd, sef cyflawni mewn ffordd gydgyssylltiedig er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl, ac yna, y blaenoriaethau allweddol ar gyfer buddsoddiad adfywio.

Cyflawni mewn ffordd gydgyssylltiedig

- Cysylltiadau cryf â mynd i'r afael â thlodi a chreu swyddi/twf.
- Adfywio yn agenda drawsbynciol sy'n cael cefnogaeth lawn y Cabinet.
- Llywodraethu cryfach a Grŵp Cyngori'r Gweinidog i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r fframwaith adfywio.
- Grŵp Llywio Mewnol i oruchwylio gwaith adfywio er mwyn sicrhau bod swyddogion ar lefel uwch yn Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn ffordd gydgyssylltiedig, gan gysylltu'r gwaith hwn â Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.
- Pryd bynnag y bo modd, integreiddio prosiectau'r Undeb Ewropeaidd, sy'n werth £1.4 biliwn, er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd buddsoddi.

- Dangosyddion canlyniadau ar gyfer Cymunedau Ffyniannus, Cymunedau Iachach a Chymunedau sy'n Dysgu.
- Cydnabod bod yn rhaid wrth arloesedd a chreadigrwydd a bod angen dysgu o brofiadau blaenorol.

Y blaenoriaethau allweddol ar gyfer buddsoddiad adfywio

- Wrth fynd ati i greu lleoedd llwyddiannus, gwneud hynny mewn ffordd wedi'i thargedu'n well, a fydd yn arwain at fuddsoddiad mwy dwys mewn llai o leoedd er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl.
- Tair blaenoriaeth allweddol, sy'n rhai brys, ar gyfer buddsoddiad a dargedir:
 - Canol trefi sy'n gwasanaethu trefi'r 21^{ain} Ganrif
 - Cymunedau arfordirol
 - Cystyrau Cymunedau yn Gyntaf
- Cydnabod pa mor bwysig yw cyflawni'n lleol ac atebolrwydd lleol, drwy alluogi partneriaethau lleol i gyflwyno ceisiadau i Lywodraeth Cymru ar gyfer canol trefi, cymunedau arfordirol a chystyrau Cymunedau yn Gyntaf, gan ddefnyddio'r model busnes pum achos a chan ddefnyddio meini prawf clir i asesu'r ceisiadau.

Dangosyddion perfformiad allweddol

Dyma'r dangosyddion perfformiad allweddol y byddwn yn eu defnyddio i asesu ceisiadau am gyllid ac i fonitro prosiectau:

- Y buddsoddiad a ysgogir (gan rannu'r buddsoddiad hwnnw yn ôl sectorau – cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector)
- Canran y gwariant a gedwir o fewn cadwyni cyflenwi yng Nghymru
- Nifer net y swyddi ychwanegol a gaiff eu creu
- Nifer y bobl a gaiff eu helpu i gael gwaith (gan gynnwys drwy recriwtio a hyfforddiant a dargedir).

Monitro a gwerthuso

Bydd gwaith monitro yn rhan annatod o bob cynllun buddsoddi o'r cychwyn cyntaf.

Gweithredu

Er mwyn gyrru'r agenda uchelgeisiol hon yn ei blaen, bydd angen cryn fomentwm oddi wrth bartneriaid allweddol ledled Cymru. Mae angen mynd ati ar fyrder i sicrhau ein bod yn cyflawni mewn ffordd fwy cydgysylltiedig ar bob lefel er mwyn sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian, yn cael cymaint o effaith positif ag y bo modd ac yn gwella lles pobl Cymru yn y tymor hir, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i'r agenda hon ac mae wedi ymrwymo hefyd, lle bynnag y bo modd, i ddarparu'r adnoddau er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu.



Stryd Fawr Bangor

2. Rhagair



Mae ein polisiâu adfywio yn cwmpasu amryw o weithgareddau integredig. Eu nod yw gwrthdroi dirywiad economaidd, cymdeithasol a ffisegol er mwyn sicrhau gwelliant parhaol mewn ardaloedd lle na fydd grymoedd y farchnad yn ddigon i wneud hynny heb ryw gymaint o gymorth oddi wrth y llywodraeth.

Mae fy mhortffolio adfywio yn cyfrannu at holl amcanion Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, gan gynnwys swyddi a thwf, ac mae cysylltiad agos rhyngddo a'n Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Fel Cabinet, mae pob un ohonom yn cydnabod bod gan raglenni adfywio wedi'u targedu botensial i gyflawni amrywiaeth eang o ganlyniadau'r Rhaglen Lywodraethu. Rydym hefyd yn cydnabod bod adfywio llwyddiannus yn dibynnu ar sicrhau perthynas agos rhwng y rhaglenni prif ffrwd ar draws portffolios.

Yn y cyd-destun hwnnw y penderfynais i y dylid cynnal adolygiad polisi o'r modd yr ydym yn mynd ati i adfywio. Arweiniwyd yr adolygiad gan fy swyddogion. Rwy'n ddiolchgar hefyd am y cymorth a gefais gan adrannau fy nghydweithwyr yn y Cabinet, gan Ganolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru, y Panel Adfywio Cenedlaethol a'r ymgynghorwyr arbenigol a wnaeth rywfaint o werthuso annibynnol ar ein gwaith yn y maes hwn. Bu'r gwaith a wnaeth Pwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ei ymchwiliad o adfywio canol trefi hefyd o fudd i ni yn hyn o beth.

Dylai pawb yng Nghymru fyw mewn cymunedau llewyrchus, cynaliadwy, llawn addewid, sydd â chysylltiadau da, economi leol gref ac ansawdd bywyd da – dyna'n gweledigaeth. Wrth i ni fynd ati i wireddu'r weledigaeth honno, rwy'n llwyr ymwybodol o'r amgylchiadau economaidd sydd ohoni ar hyn o bryd. Mae cyfyngiadau ar gyllidebau ar draws y sector cyhoeddus a thu hwnt, ac mae canol trefi yn newid o ran y ffordd y mae pobl yn siopa ac yn defnyddio gwasanaethau eraill. Mae hyn oll yn her aruthrol o ran mynd ati i roi adfywio ar waith yng Nghymru ac o ran y modd y gwnaed hynny hyd yma. Rhaid i'n cynigion ar gyfer sicrhau newid er gwell adlewyrchu'r heriau newydd hyn, a rhaid iddyn nhw hefyd gynnig ffordd effeithiol o fynd i'r afael â'r heriau hynny mewn cymunedau ledled Cymru.

Hanfod adfywio yw gweddnewid lleoedd sy'n tangyflawni, lleihau anghydraddoldeb a sicrhau twf economaidd sy'n gynhwysol ac yn gynaliadwy ac sydd â ffocws penodol. Mae maint yr her honno yn pwysleisio bod angen i ni weithio gyda'n gilydd ar draws y llywodraeth a chydweithredu â'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, ynghyd â'r sector preifat, i gefnogi arloesedd ac i rannu arferion da.

Tair prif neges yr adolygiad oedd:

- Mae angen cryfhau'r llywodraethu i wella'r cyflawni. Yn benodol, mae cyfle i dargedu buddsoddiad yn fwy dwys mewn llai o leoedd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl mewn ffordd fwy strwythuredig. Bydd Grŵp newydd a gaiff ei sefydlu i Gynghori'r Gweinidog yn goruchwyllo'r gwaith hwn yn strategol.

- Rhaid wrth bartneriaeth. Dim ond drwy wir ymwneud â chymunedau, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat y gellir cyflawni adfywio cynaliadwy.
- Mae dull yr Ardaloedd Adfywio yn gweddnewid rhai o'n lleoedd mwyaf difreintiedig, ond mae cyfle o hyd i wella'r ffordd yr ydym yn buddsoddi ar lefel leol.

Rwy'n hynod ddiolchgar i bawb a gymerodd ran yn yr adolygiad polisi diweddar a'r ymgynghoriad a'i dilynodd. Mae'r fframwaith hwn wedi elwa'n fawr ar gyfraniadau a wnaed gan amryfal sectorau, ardaloedd a grwpiau buddiant. Fe'i cryfhawyd hefyd drwy gael ei oruchwylio gan y Panel Adfywio Cenedlaethol a thrwy'r cyngor arbenigol a gafwyd oddi wrth Ganolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru a phobl broffesiynol eraill sy'n gweithio ym maes adfywio. Mae'r adborth a gafwyd wedi cymeradwyo'r dulliau gweithredu a ganlyn:

- Canlyniadau cenedlaethol newydd
- Dull o weithredu sy'n seiliedig ar bobl ac ar leoedd, a hwnnw yn seiliedig ar dystiolaeth gref ac wedi'i werthuso'n dda
- Wrth fynd ati i greu lleoedd llwyddiannus, gwneud hynny mewn ffordd wedi'i thargedu'n well, a fydd yn arwain at fuddsoddiad mwy dwys mewn llai o leoedd er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl
- Buddsoddiad penodol wedi'i dargedu ar gyfer adfywio canol trefi, cymunedau arfordirol a chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf
- Ymrwymiad o'r newydd i weithio ar draws portffolios o fewn y Llywodraeth.

Wrth i ni fynd ati i weithredu'r fframwaith, rwy'n rhoi ei lwyddiant yng ngofal y partneriaethau a fydd, mi wn, yn cael eu meithrin â brwdfrydedd ar bob lefel. Bydd cefnogaeth holl aelodau Cabinet Llywodraeth Cymru yn hwb arbennig i'r gwaith o gyflawni'r fframwaith, ond man cychwyn y gwaith hwnnw fydd cydweithio hyd yn oed mwy agos ar draws pob sector.

Wrth i'r argyfwng – a'r ansicrwydd – economaidd barhau, ni chaiff y rheini yn ein plith sy'n gwasanaethu'n cymunedau ail gyfle i roi help llaw iddyn nhw greu cyfleoedd newydd.



Huw Lewis AC

Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth



3. Y cyd-destun – Beth sydd wedi newid a beth yw’r sefyllfa ar hyn o bryd?

3.1 Beth sydd wedi newid?

Rydym yn cydnabod ein bod yn wynebu amgylchiadau economaidd na welwyd eu tebyg o’r blaen. Mae’r heriau ariannol yn parhau ac nid ydym yn debygol o weld fawr o welliant yn y dyfodol agos yn yr amodau economaidd hynod anodd sydd ohoni. Rydym yn disgwyl y bydd £2-4 biliwn yn llai o gyllid cyfalaf ar gael i ni yn ystod y degawd nesaf o’i gymharu â’r un blaenorol. Fodd bynnag, nid yw’r gostyngiad mawr hwn yn y cyllidebau cyfalaf yn golygu bod yr angen am fuddsoddiad fymryn yn llai. Fel Llywodraeth, rydym yn benderfynol o ymateb i’r heriau sy’n dod i’n rhan yn sgil yr hinsawdd economaidd fyd-eang sydd ohoni, sy’n un hynod o ansicr. Yn ein Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi, rydym yn nodi sut y byddwn yn buddsoddi swm o ryw £15 biliwn dros y degawd nesaf mewn blaenoriaethau cyfalaf er mwyn hybu twf a swyddi. Mae’r cynllun hwn yn un o gonglfeini’r gwaith y mae angen ei wneud yma yng Nghymru er mwyn sicrhau bod ein heconomi’n llwyddo, a bod yn llwyddiant hwnnw’n gynaliadwy.

Mae gan adfywio rôl allweddol i’w chwarae o ran sicrhau economi ffyniannus a chynaliadwy. Fodd bynnag, nid oes unrhyw arwydd ar hyn o bryd o’r dulliau confensiynol o adfywio – er enghraifft, mentrau sy’n seiliedig ar eiddo – ac nid ydym yn debygol o weld y lefelau mentrus o fuddsoddiad a welwyd yn y gorffennol. At hynny, mae patrymau ymddygiad defnyddwyr yn newid yn barhaol ac maent bellach yn siopa mewn canolfannau y tu allan i drefi ac ar y rhyngwrdd, gan greu her sylfaenol i rôl canol trefi, sy’n canolbwyntio’n bennaf ar fanwerthu. Mae’r amodau hyn yn golygu bod her newydd yn wynebu pobl sy’n gweithio ym maes adfywio. Mae’r hinsawdd economaidd sydd ohoni yn golygu nad oes gennym unrhyw ddewis ond newid y ffordd yr ydym yn gweithio ac yn mynd ati i gyflawni. Mae arferion arloesol yn dechrau dod i’r amlwg ac mae gennym y gallu yma yng Nghymru i gwrdd â’r heriau hyn. Bydd y fframwaith adfywio hwn yn cefnogi’r prosesau hyn drwy alluogi’r sector cyhoeddus, y sector preifat a’r trydydd sector i gydweithio i helpu i arloesi a rhannu arferion da pan ddônt i’r amlwg, er mwyn mynd i’r afael â thlodi a’r problemau sy’n codi yn sgil yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

3.2 Arferion Llywodraeth Cymru yn ddiweddar

Mae adfywio wedi bod yn rhan allweddol o waith Llywodraeth Cymru ers i’r Cynulliad gael ei sefydlu ym 1999. Drwy fuddsoddi’n helaeth mewn adfywio, llwyddwyd i wella canlyniadau ar gyfer pobl sy’n byw mewn cymunedau ledled Cymru. Daeth y buddsoddiad hwn yn uniongyrchol o gyllid penodol ar gyfer prosiectau adfywio, ond yn aml, mae’r buddsoddiad mwyaf mewn cymunedau’n cael ei wneud drwy wasanaethau prif ffrwd.

Drwy ein saith Ardal Adfywio, drwy Newport Unlimited a Phartneriaeth Parc Rhanbarthol y Cymoedd, rydym wedi pennu egwyddorion pwysig ar gyfer adfywio'n llwyddiannus: paratowyd y fframwaith hwn ar sail yr egwyddorion hynny. Un o elfennau allweddol ein dull o weithredu hyd yma yw'r ffordd y buom yn gweithio ar draws y Llywodraeth a thu hwnt i gyfuno cyllid adfywio gyda ffrydiau ariannu eraill er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl.

Nodir isod gryfderau'r dull o weithredu ar sail Ardaloedd Adfywio, sy'n ddull a gymeradwywyd gan waith gwerthuso annibynnol:

- gweithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau daearyddol a sefydliadol, ac ar draws ffiniau sectorau;
- gwaith cynllunio strategol integredig ar draws meysydd polisi;
- dealltwriaeth ar lefel leol o angen aciwt, a'r gallu i fynd i'r afael â'r angen hwnnw drwy fanteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfleoedd;
- ysgogi buddsoddiad ychwanegol;
- cyllid hyblyg er mwyn cynnig atebion sydd wedi'u teilwra i fynd i'r afael â heriau lleol.



Treftadaeth Rhoadr Aberdulais

Rydym, er hynny, hefyd yn cydnabod nad yw'r dull hwn o weithredu yn ateb pob diben, yn enwedig o ran:

- amcanion cyffredinol sy'n addas ar gyfer amrywiaeth eang o brosiectau gwahanol;
- rhyw gymaint o gyllid prif ffrwd yn cael ei ddisodli yn hytrach na bod cyllid yn cael ei dargedu'n fwy penodol;
- diffyg eglurder am y meini prawf ar gyfer dethol Ardaloedd Adfywio;
- ffiniau haearnidd nad ydynt bob amser yn adlewyrchu daearyddiaeth economaidd lleoedd a rhanbarthau;
- cyllid yn cael ei ddyrannu cyn i waith cynllunio strategol gael ei gwblhau a thargedau blynyddol yn cael eu pennu ar gyfer y cyllid hwnnw;
- nid yw cyllid yn cael ei ddyrannu bob amser ar yr adegau pan fo cyfleoedd/capasi't ar gael i gyflawni;
- nid yw cyllid yn cael ei ddyrannu mewn ffordd gydgyssylltiedig;
- nid oes digon o ran yn cael ei rhoi i'r sector preifat wrth gynllunio a darparu atebion integredig ym maes adfywio.

Dyma rai o'r rhaglenni cyfredol seiliedig ar ardaloedd sydd â goblygiadau o ran adfywio:

- *Cymunedau yn Gyntaf*. Rhaglen gymunedol yw hon ac mae'n allweddol er mwyn mynd i'r afael â thlodi. Mae'n gweithio drwy glystyrau yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod y timau Adfywio a Chymunedau yn Gyntaf yn cydweithio er mwyn hyrwyddo gwelliannau ar gyfer cymunedau ac ar gyfer y bobl sy'n byw ynddynt. Yn ein barn ni, dyma'r brif ffordd o fynd ati yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig i rymuso cymunedau ac i feithrin cysylltiadau â hwy, gan weithio o fewn cynlluniau adfywio ehangach. Yn benodol, rydym am weithio gyda chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf i fanteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfleoedd economaidd yn eu hardaloedd ehangach.
- *Y Cronfeydd Strwythurol*. Mae rhaglenni Datblygu Rhanbarthol Ewrop 2007-2013 wedi cefnogi gweithgareddau adfywio ffisegol yn uniongyrchol gan ganolbwyntio ar rai o gymunedau tlotaf Cymru. Hefyd, mae'r Cronfeydd Strwythurol yn cefnogi

amryw o ymyriadau sy'n bwysig er mwyn cyflawni canlyniadau adfywio fel seilwaith; trafnidiaeth gynaliadwy; cymorth busnes; sgiliau; gwella mynediad i'r farchnad lafur; ac arloesedd.

- *Cymunedau cynaliadwy a chryf.* Rydym yn cydweithio â chydweithwyr ar draws y Llywodraeth i wireddu'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i sicrhau bod ein polisiâu a'n rhaglenni'n parchu egwyddorion datblygu cynaliadwy, a'n bod, drwy'r polisiâu a'r rhaglenni hynny, yn annog datblygu economaidd cynhwysol a chynaliadwy sydd â ffocws penodol, yn byw o fewn ein terfynau amgylcheddol, yn mynd i'r afael â thlodi ac yn gwella canlyniadau iechyd a deilliannau addysgol. Mae'r amgylchedd naturiol yn fwy na system cynnal bywyd yn unig, mae hefyd yn rhoi ymdeimlad o le ac o les; mae'n arwain at well iechyd, at fwy o gydlyniant cymdeithasol, at fwy o gyfleoedd gwaith ac at lwyddiant hirdymor. Rydym yn gweithio i sicrhau bod y gefnogaeth yr ydym yn ei rhoi i bobl, amgylchedd ac economi Cymru yn cael ei hintegreiddio'n dda fel y bo'r wlad ar ei hennill yn y tymor hir.
- *Y Cynllun Datblygu Gwledig.* Rydym yn tueddu i weld lefelau dwys o amddifadedd mewn ardaloedd o gwmpas trefi, ac mae nifer o'r ardaloedd hynny yn cael eu dynodi'n rhai gwledig yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu Gwledig. Rydym yn cydnabod, serch hynny, bod problemau tebyg i'w gweld mewn aneddiadau gwledig traddodiadol mwy anghysbell ond bod y problemau hynny'n deillio o amgylchiadau gwahanol. Mae'r pwysau gwahanol a geir yn y mannau hynny yn golygu hefyd fod y problemau aciwt sydd i'w gweld yno yn rhai gwahanol. Mae gennym raglenni pwrpasol eisoes i fynd i'r afael â'r materion hyn, a sefydlwyd y Rhaglen Datblygu Gwledig er mwyn diwallu anghenion ein hardaloedd gwledig a lled-wledig, gan gynnwys yr angen i'w hadfywio. Er hynny, mae mwy y gallwn ei wneud i integreiddio gweithgareddau ar draws y rhaglenni hyn, ac rydym yn benderfynol o wneud hynny.
- *Dechrau'n Deg.* Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn targedu plant 0-3 oed yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Ei nod yw sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn y tymor canolig a'r tymor hir. Mae elfennau'r rhaglen hon yn cael eu pennu'n fanwl ar sail tystiolaeth ryngwladol sy'n dangos beth sy'n gweithio orau. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod gofal plant rhan-amser o ansawdd da yn cael ei ddarparu'n rhad ac am ddim ar gyfer plant 2-3 oed; bod gwell gwasanaeth yn cael ei gynnig gan Ymwelwyr Iechyd (lle nad yw llwyth achosion yr Ymwelydd Iechyd yn cael cynnwys mwy na 110 o blant); a bod cyfleoedd i fanteisio ar raglenni rhianta ac ar sesiynau Iaith a Chwarae. Mae'r rhain ar gael yn gyffredinol i bob plentyn 0-3 oed, ac i deuluoedd y plant hynny, yn yr ardaloedd lle mae'r rhaglen yn cael ei chynnig. Mae'r rhaglen hon yn cael effaith economaidd yn lleol drwy wella cyfleoedd bywyd rhieni a phlant, a gellid mynd ati i feithrin cysylltiadau mwy agos rhyngddi ac ymyriadau ym maes adfywio a chyfleoedd ehangach.
- *Adfywio a arweinir gan dai.* Mae darparu rhagor o dai, a gwella ansawdd y tai hynny, yn cyfrannu at les cymunedau ac unigolion ac yn gwneud cyfraniad mawr o ran adfywio ardaloedd, yn arbennig felly drwy gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. Drwy gydweithio â phartneriaid allweddol, llwyddwyd i gynyddu'r cyflenwad o dai sydd ar gael ac i wella'u hansawdd, a llwyddwyd hefyd, drwy gaffael, i sicrhau mwy o fanteision cymunedol, gan gynnwys swyddi a chyfleoedd hyfforddiant. Mae ardaloedd adfywio tai yn enghraifft o raglenni adfywio sy'n seiliedig ar ardaloedd ac a arweinir gan dai.

- *Ardaloedd Menter.* Mae ein Hardaloedd Menter yn ardaloedd dynodedig lle cynigir cymhellion penodol er mwyn denu busnesau a diwydiannau newydd i'r lleoliadau dethol hynny. Eu nod yw gwneud economi Cymru yn un fwy cystadleuol – a dangos bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i greu swyddi ac i sicrhau twf yn y tymor hir.

3.3 Rhaglenni sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru

- *Dinas-ranbarthau.* Cafodd adroddiad annibynnol ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn argymhell y dylid mynd ati i ddatblygu'r economi yn y De-ddwyrain ac yn y De-orllewin ar sail dinas-ranbarthau. Drwy wneud hynny, mae'n bosibl y byddai modd creu fframwaith ar gyfer gweithgarwch adfywio wedi'i dargedu er mwyn datblygu'r rolau cydategol sydd gan aneddiadau o fewn y dinas-ranbarthau.
- *Ardaloedd Twf Lleol.* Mae Ardal Twf Lleol Powys yn enghraifft o sut y gall partneriaid sy'n ymrwymedig i adfywio lleoedd ddatblygu'r strategaethau angenrheidiol. Bellach, mae'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn cydweithio er mwyn gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad ar Ardal Twf Lleol Powys.
- *Cynnal Cymru Fyw.* Yn y Papur Gwyrdd sy'n ymdrin â chynllunio adnoddau amgylcheddol a naturiol yn y dyfodol, cynigiwyd ffordd newydd o fynd ati i bennu amcanion cyffredinol ar y cyd â chymunedau er mwyn gwella'r cyfleoedd a gynigir gan yr amgylchedd lleol ac er mwyn mynd i'r afael ag amgylcheddau o ansawdd gwael mewn ardaloedd trefol.
- *Cylch newydd o Gronfeydd Strwythurol.* Bydd y cylch newydd o gyllid Ewropeaidd, sy'n werth £1.4 biliwn, hefyd yn gyfle i ni weithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig. Bydd yn canolbwyntio ar **Fwy o Swyddi a Bywydau Gwell** – drwy dwf economaidd Call, Cynaliadwy a Chynhwysol:
 - **Call:** economi sy'n seiliedig ar wybodaeth, ac arloesi sydd â ffocws penodol ac sydd wedi'i dargedu.
 - **Cynaliadwy:** economi sy'n fwy effeithlon o ran adnoddau, sy'n wyrddach ac yn gystadleuol.
 - **Cynhwysol:** economi cyflogaeth uchel – sy'n fodd i sicrhau cydlyniant cymdeithasol a thiriogaethol.
- *Y rhaglen ddeddfwriaethol.* Mae'r rhaglen hon yn cynnwys Biliau a fydd yn ein helpu i gyflawni'r fframwaith adfywio hwn, yn eu plith, Biliau ar Dai, Treftadaeth, Datblygu Cynaliadwy, Iechyd, Cynllunio a'r Amgylchedd.



4. Ein diffiniad, ein gweledigaeth a'r canlyniadau a ddymunir

4.1 Ein diffiniad

Dyma'n diffiniad o adfywio:

"set integredig o weithgareddau sy'n ceisio gwrthdroi dirywiad economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a ffisegol a sicrhau gwelliannau parhaol mewn ardaloedd lle na fydd grymoedd y farchnad yn gwneud hynny ar eu pen eu hunain heb ryw gymaint o gymorth oddi wrth y llywodraeth".

Er bod y diffiniad hwn yn seiliedig ar brofiadau a gafwyd yng Nghymru ac ar yr arbenigedd sydd yma, mae'n ddigon tebyg i ddiffiniadau eraill ar draws y Deyrnas Unedig i ganiatáu cymariaethau ystyrlon. Cafodd y diffiniad hwn ei gymeradwyo hefyd drwy'r broses ymgynghori a chredwn ei fod yn adlewyrchu'r farn yng Nghymru.

Ystyr "gweithgareddau integredig" yw cyflawni rhaglenni mewn modd cydgysylltiedig, gan gydnabod pa mor gymhleth yw'r materion sy'n gysylltiedig â dirywiad cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae angen mynd ati mewn ffordd holistaidd, gan dargedu dirywiad economaidd, iechyd gwael, tai gwael a chyrhaeddiad addysgol gwael, yn ogystal â'r dirywiad yn ansawdd yr amgylchedd. Mae'r ffactorau hyn oll yn gwlwm cymhleth yn ein cymunedau difreintiedig. Mae angen hefyd ategu a helpu i wella'r gwasanaethau prif ffrwd a ddarperir gan y llywodraeth mewn ardaloedd sy'n tangyflawni, gan helpu i greu gwasanaethau mwy hyblyg a sicrhau eu bod yn cael eu targedu'n well.

Yr hyn a olygir wrth sicrhau "gwelliannau parhaol" yw sicrhau newidiadau hirdymor mewn modd cynaliadwy, drwy fynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal twf a thrwy leihau'r niiferoedd sydd heb waith er mwyn torri'r cylch tlodi, annog pobl i anelu'n uwch a datgloi potensial. Mae angen gwella lleoedd a'u gwneud yn fwy deniadol i'r trigolion ac i fuddsoddwyr, er mwyn i fusnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes fedru ffynnu. Y nod yw gwneud cymunedau ac unigolion yn annibynnol yn hytrach nag yn ddibynnol – a'u helpu i esblygu a ffynnu mewn ffordd gynaliadwy.

Ystyr "lle na fydd grymoedd y farchnad yn gwneud hynny ar eu pen eu hunain heb ryw gymaint o gymorth oddi wrth y llywodraeth" yw mynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd neu ddiffygion penodol yn y modd y mae marchnadoedd yn dyrannu adnoddau, os yw'n briodol i'r llywodraeth ymyrryd. Ond mae hefyd yn cynnwys gwneud iawn am achosion lle y bo'r marchnadoedd yn gweithio mewn ffordd briodol ond bod hynny'n arwain at ganlyniadau nad ydynt yn gydnaws ag amcanion cymdeithasol neu amgylcheddol y llywodraeth.

Wrth ymyrryd, mae angen i ni sicrhau bod yr ymyrraeth honno'n cael ei thargedu a'i bod yn canolbwyntio ar amcanion penodol, ac mae angen cynnal asesiadau cadarn o'r hyn y dylem ei wneud a'r hyn na ddylem ei wneud.

Helpu lleoedd sy'n tangyflawni yw hanfod gwaith adfywio, ac fel arfer, gwneir hynny drwy reoli'r broses o symud ymlaen o'r amgylchiadau economaidd a roddodd fod i'r lleoedd hynny yn y lle cyntaf, neu hyd yn oed drwy gefnu ar yr amgylchiadau hynny. Mae'n rhaid wrth dwf economaidd sy'n gall, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol. Mae'n bwysig hefyd sicrhau bod lleoedd sy'n gwneud yn dda yn parhau i ffynnu.

Mae adfywio hefyd yn gyfle i edrych mewn ffordd wahanol ar bolisiâu, rhaglenni a phrosiectau cenedlaethol – o ran yr effeithiau (bwriadol ac anfwriadol) y maent yn eu cael ar leoedd penodol, ac o ran y ffordd y mae penderfyniadau gwahanol yn effeithio ar ei gilydd.

4.2 Ein gweledigaeth

Dyma'n gweledigaeth:

Dylai pawb yng Nghymru fyw mewn cymunedau llewyrchus, cynaliadwy, llawn addewid, sydd â chysylltiadau da, economi leol gref ac ansawdd bywyd da.

Cadarnhawyd, drwy gyfrwng yr ymgynghoriad, fod cefnogaeth gyffredinol i'r weledigaeth hon. Mae dileu tlodi yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru. Er mwyn newid Cymru er gwell, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn cydgysylltu'r gwaith a wneir yn hyn o beth, nid yn unig o fewn Llywodraeth Cymru ond hefyd ar draws ein holl bartneriaid a chymunedau allweddol. Mae cydweithio yn gwbl greiddiol i'r gwaith yr ydym yn ei wneud i sicrhau ein bod yn cael canlyniadau go iawn a'n bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol a chynaliadwy i ansawdd bywydau pobl.

Mae cydgysylltu'r gwaith a wneir gan adrannau Llywodraeth Cymru yn gryn her ynddi ei hun. Os llwyddwyd eisoes i sefydlu ffyrdd o gydweithio ar lefel strategol genedlaethol (er enghraifft, y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru), rhaid i ni sicrhau bod ei gwaith ni'n cyd-fynd â'r gwaith hwnnw er mwyn i'n rhaglenni gael yr effaith a'r canlyniadau gorau posibl, ond rhaid gwneud yn siŵr hefyd nad ydym yn dyblygu gwaith.



*Digwyddiad Diwylliannol
ym Mlaenafon*

4.3 Ein canlyniadau cenedlaethol

Mae'r canlyniadau cenedlaethol yr ydym yn dymuno'u gweld yn cyd-fynd ag amcanion y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ac amcanion Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Dyma'r canlyniadau hynny:

4.3.i Canlyniad Un: Cymunedau Ffyniannus

Caiff yr amcan hwn ei gefnogi gan amryw o weithgareddau ar y lefel ranbarthol a lleol a fydd o gymorth i sicrhau'r canlyniadau a ganlyn:

- lefelau gwell o weithgarwch economaidd a mwy o swyddi;
- economïau lleol cryf ac amrywiol, lle mae'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn gweithio gyda'i gilydd;
- cymunedau sydd â chysylltiadau da, gan gynnwys cysylltiadau trafnidiaeth a chysylltiadau band eang;
- defnydd cynaliadwy o'r amgylchedd naturiol er mwyn sefydlu ffyrdd o gynhyrchu ynni a bwyd yn lleol;
- sector preifat a mentrau cymdeithasol llewyrchus;
- canol trefi a chymunedau arfordirol llwyddiannus;
- amgylchedd hanesyddol a naturiol sy'n cael ei reoli'n dda, sy'n cyfrannu at gymeriad unigryw tirwedd ac aneddiadau Cymru a lle mae treftadaeth a chymeriad hanesyddol yn cael eu diogelu, eu gwerthfawrogi a'u cynnal.

4.3.ii Canlyniad Dau: Cymunedau sy'n Dysgu

Mae cysylltiad agos iawn rhwng adfywio a sgiliau a gallu unigolion, teuluoedd a chymunedau. Bydd ein hymyriadau ym maes adfywio yn helpu i:

- greu gweithlu medrus a hyderus, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol;
- creu diwylliant o anelu'n uchel yn lleol;
- creu cysylltiadau â chyfleoedd dysgu yn yr ysgol, ym maes addysg ôl-16 ac ym maes addysg oedolion;
- creu cyfleoedd clir i ddatblygu cyfalaf cymdeithasol a diwylliannol ac i gryfhau cydraddoldeb;
- sicrhau bod pobl yn credu mewn gwell dyfodol.

4.3.iii Canlyniad Tri: Cymunedau iachach

Mae iechyd a lles y trigolion yn gwbl greiddiol er mwyn creu lleoedd sy'n llawn bywyd. Bydd gweithgareddau adfywio yn helpu i sicrhau:

- cymunedau iach a chydlynus sy'n gallu tyfu a gweithio gyda'i gilydd;
- ardaloedd lleol diogel;
- tai da sy'n fforddiadwy ac sy'n cynnig dewis o ran deiliadaeth;
- amgylchedd lleol cynaliadwy, o ansawdd da;
- hunaniaeth leol gadarnhaol a chynhwysol;
- adeiladau, amwynderau a chyfleusterau o safon, a gynlluniwyd yn dda ac sy'n cael eu defnyddio mewn modd priodol.

O ran sicrhau bod canlyniadau adfywio yn cyd-fynd â rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a'r Rhaglen Lywodraethu, roedd y rhan fwyaf a ymatebodd i'r ddogfen ymgynghori yn croesawu hynny, ac roedd cefnogaeth gref i'r nod hwnnw yn y digwyddiadau ymgynghori. Bydd pennu canlyniadau cenedlaethol sy'n cyd-fynd â pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru yn ein helpu yn ein bwriad i ddatblygu dull o weithredu ar draws y llywodraeth gyfan ym maes adfywio. Bydd y dull hwnnw'n fodd effeithiol o sicrhau bod rhaglen gyflawni gyffredinol Llywodraeth Cymru hefyd yn esgor ar fanteision adfywio.

4.4 Dangosyddion canlyniadau

Bydd dangosyddion canlyniadau yn cael eu casglu ar gyfer pob un o'r tri maes canlyniadau allweddol hy Cymunedau Ffyniannus, Cymunedau Iachach a Chymunedau sy'n Dysgu. Bydd y dangosyddion hynny'n cynnwys y mesurau allweddol a ganlyn:

Cymunedau Ffyniannus

- % yr aelwydydd nad ydynt mewn gwaith (y bwlch rhwng ardaloedd difreintiedig ac ardaloedd eraill)
- Y gyfradd cyflogaeth (y bwlch rhwng ardaloedd difreintiedig ac ardaloedd eraill)
- % y bobl sy'n credu bod eu cymdogaeth wedi gwella yn ystod y 3 blynedd diwethaf

Cymunedau Iachach

- % yr oedolion sy'n dweud bod eu hiechyd yn weddol neu'n wael (y bwlch rhwng ardaloedd difreintiedig ac ardaloedd eraill)

Cymunedau sy'n Dysgu

- % sy'n cyflawni dangosyddion y cyfnodau allweddol yn 16 oed (y bwlch rhwng ardaloedd difreintiedig ac ardaloedd eraill)
- % y bobl sydd â chymwysterau a enillir ar ôl gadael yr ysgol (y bwlch rhwng ardaloedd difreintiedig ac ardaloedd eraill)



5. Ein hegwyddorion a'n dulliau o weithredu

5.1 Yr egwyddorion allweddol

Yr egwyddorion allweddol ar gyfer ein gwaith fydd Partneriaeth, Strategaeth a Chynaliadwyedd.

5.1.1 Partneriaeth

- Bydd gweithio mewn partneriaeth yn rhan gwbl annatod o'r gwaith a wneir o fewn yr holl gyrff allweddol sy'n bartneriaid, ac o'r gwaith a wneir rhyngddynt, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus ehangach, y trydydd sector a'r sector preifat.
- Dull o weithredu ar draws y llywodraeth gyfan, y cytunwyd arno gan y Cabinet.
- Defnyddio'r arferion gorau sydd eisoes yn bod, ond cydnabod hefyd nad oes unrhyw un ateb a fydd yn gweithio o dan bob math o amgylchiadau a bod angen gweithredu mewn ffyrdd arloesol hefyd.
- Bod yn arloesol a chreadigol.
- Cyfathrebu da (o ran bod yn weladwy ac o ran disgrifio'r hyn sy'n digwydd) er mwyn hyrwyddo gwaith da a rheoli disgwyliadau.

5.1.2 Strategaeth

- Dull o weithredu sy'n seiliedig ar bobl a lleoedd, sy'n rhoi rhan wirioneddol i'r cymunedau lle mae'r gwaith adfywio'n cael ei wneud, ac sy'n sicrhau canlyniadau strategol, gan ystyried anghenion lleol ar yr un pryd.
- Cynllunio gofodol effeithiol sy'n sail i benderfyniadau buddsoddi ar bob lefel.
- Bydd yn rhaid wrth gynlluniau sydd ag arweinyddiaeth glir, lle mae ymrwymiad i reoli'n dda, atebolrwydd clir a llywodraethu da. Wrth fonitro problemau a risgiau, mae angen i ni sicrhau bod gennym dystiolaeth, ein bod yn mynd ati i werthuso a'n bod yn gallu dod â phrosiect i ben os nad yw'n llwyddo i gyflawni'r hyn a fwriadwyd.
- Datblygu cyfleoedd a mynd i'r afael ag anghenion, ac, yn hanfodol, datblygu cyfleoedd ar sail yr anghenion.
- Bydd gwerthuso'n elfen allweddol o unrhyw gynllun, a bydd y gwaith gwerthuso hwnnw'n cael ei gynllunio o'r cychwyn cyntaf. Bydd yn parhau'n elfen annatod o'r rhaglen ar ei hyd tan i'r prosiect gael ei gwblhau, a bydd yn parhau wedyn hefyd.
- Mae angen i werth ychwanegol a gwerth am arian fod yn ystyriaethau allweddol ac mae angen y gallu i fanteisio i'r eithaf ar raglenni'r brif ffrwd ac ar gyllid allanol.

- O fewn fframwaith ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, byddwn yn sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan annatod o'r broses, gan ystyried yr holl nodweddion gwarchodedig. Yn fwyaf arbennig, byddwn yn manteisio ar bob cyfle, drwy gaffael cyhoeddus, i hybu cydraddoldeb a chynhwysiant a gwella arferion cyflogaeth.

5.1.3 Cynaliadwyedd

- Rhaid i'r dull o weithredu adlewyrchu'r ffaith mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru.
- Rhaid annog datblygu economaidd cynhwysol a chynaliadwy sydd â ffocws penodol.
- Mae datblygu cynaliadwy yn cwmpasu cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb, felly mae'r dull hwn o weithredu yn gwneud cyfraniad allweddol at yr agenda Trechu Tlodi a'r agenda cydraddoldeb.
- Rhaid i'r gwaith fod yn seiliedig ar dystiolaeth, a hynny mewn ffordd gwbl glir. Ni ddylai'r gwaith gael ei symbylu'n bennaf gan ystyriaethau gwleidyddol a dylanwad gwleidyddol.
- Mae angen gweithio o'r gwaelod i fyny, nid dim ond o'r brig i lawr – mae angen i syniadau sy'n codi o'r gwaelod fod yn gydnaws â'r trosolwg strategol a dylent weithio gyda'i gilydd. Dylai'r trosolwg strategol hwnnw fod yn un clir.
- Rhaid i ni alluogi'r sector preifat a'r trydydd sector i fuddsoddi ac i gyflawni yn hytrach na'n bod, yn anfwriadol, yn creu rwystrau drwy ymyriadau gan y sector cyhoeddus.
- Mae angen hyrwyddo a dwyn sylw at ddulliau o weithredu ar sail ardal gyfan, ac mae angen mynd ati hefyd i rannu'r arferion gorau.
- Cydnabod bod yn rhaid wrth amserlenni hirdymor er mwyn sicrhau newid gwirioneddol, sy'n awgrymu cylch rhaglenni o tua 10-15 mlynedd fan lleiaf. Mae'n amlwg bod angen cefnu ar y drefn o gael ein gyrru gan orwelion gwleidyddol, tymor byr.

5.2 Dulliau allweddol o weithredu

Rhaid i'r model newydd ar gyfer adfywio fedru dangos tystiolaeth bod buddsoddiad yn cael ei wneud er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl. Mae'n hanfodol ein bod yn gweithredu fwyfwy ar sail tystiolaeth. Rhaid cydnabod hefyd fod angen integreiddio pobl a lleoedd.

5.2.1 Yn seiliedig ar dystiolaeth

Cydnabyddir bod llawer o raglenni presennol Llywodraeth Cymru, a llawer o'r rhaglenni sydd gan sefydliadau eraill, yn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth y dylai pawb yng Nghymru fyw mewn cymunedau llewyrchus, cynaliadwy, llawn addewid, sydd ag economi gref. Byddwn yn mapio'r adnoddau a'r ymyriadau sydd eisoes yn bod er mwyn helpu'r holl bartneriaid i ddeall y sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd.

Mae angen gweithredu ar sail ardaloedd hefyd er mwyn deall y cyfleoedd a'r angen sydd yno. Rydym wedi adolygu hanes adfywio yn y Deyrnas Unedig ac mae'r hanes hwnnw'n dangos bod y dulliau gweithredu ar sail ardaloedd a welwyd ym mhob polisi adfywio hyd yma wedi bod yn rhai canolog. Cytunir yn gyffredinol bod ymyrraeth yn y

gymdogaeth neu'r gymuned yn rhan hanfodol o'r system o ymyrryd sydd ei hangen i sicrhau adfywio llwyddiannus.

Bydd mesur perfformiad a mesur i ba raddau y caiff canlyniadau cenedlaethol eu cyflawni yn rhan bwysig o'r broses weithredu. Bydd disgwyl i brosiectau a rhaglenni ddangos tystiolaeth reolaidd o'r hyn y maent wedi'i gyflawni. Yn unol â datblygiadau ar draws Llywodraeth Cymru, defnyddir Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau i sicrhau bod ein buddsoddiad yn esgor ar ganlyniadau gwirioneddol sy'n newid yr amodau y mae pobl yn byw ac yn gweithio ynddynt. I barhau i gael arian bydd angen dangos tystiolaeth glir bod y canlyniadau'n cael eu cyflawni.

5.2.2 Yn seiliedig ar bobl

Yn ein hadolygiad o hanes adfywio yn y Deyrnas Unedig gwelwyd gwahaniaeth amlwg rhwng adfywio sy'n 'seiliedig ar bobl' ac adfywio sy'n 'seiliedig ar leoedd'. Awgryma hynny mai cyfuniad o ddulliau gweithredu fydd fwyaf llwyddiannus, sef y rheini sy'n cydnabod y cysylltiad cymhleth rhwng nodweddion teuluoedd ac unigolion a'r lleoedd y maent yn byw ynddynt. Mae dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar bobl yn cydnabod bod angen datblygu sgiliau a meithrin gallu i ymgysylltu â'r economi a'r gwasanaethau cyhoeddus mwyaf hanfodol.

Mae sgiliau, addysg, iechyd a chyfle i gael gwaith oll yn chwarae rhan bwysig yn y broses adfywio. Rhaid i feysydd allweddol y rhaglen gydweithio i integreiddio ac i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl. Ystyrier, er enghraifft, Cymunedau yn Gyntaf. Rhaglen refeniw yw hon yn bennaf ac mae tua £30 miliwn ynddi i helpu i godi pobl allan o dlodi, gwella iechyd, addysg a dysgu. Mae'n hollbwysig bod clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn cael eu mapio'n rhanbarthol ac yn lleol er mwyn deall sut y mae cyllid prif ffrwd yn cyfrannu at adfywio. Yn ei dro, rhaid deall graddau, ansawdd a strategaeth gwariant prif ffrwd er mwyn sicrhau ei fod yn cael yr effaith fwyaf bosibl ar adfywio ac yn asio'n briodol â hynny. Mae'r gwariant mwyaf arwyddocaol y mae modd ei gyflawni mewn unrhyw gymuned eisoes yn digwydd drwy gyfrwng y llu o ffrydiau gwariant sy'n cael eu rhoi ar waith gan yr amryfal wasanaethau cyhoeddus. Drwy ddeall yr effaith y gall cyfanswm y gwariant hwn ei chael ar adfywio, gallwn anelu at ganlyniadau sydd hyd yn oed yn well. Wrth fynd ati i fapio'r clystyrau Cymunedau yn Gyntaf, dylid ystyried yr holl ymyriadau prif ffrwd sy'n cyfrannu at yr agwedd ar adfywio sy'n seiliedig ar bobl.



Big Pit

Er bod cyfalaf, yn gyffredinol, yn bwysig er mwyn ariannu elfennau o adfywio, gan gynnwys sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl i gymunedau drwy gaffael, mae ein tystiolaeth yn dangos yn glir bod cyfalaf cymdeithasol hefyd yn bwysig. Cyfalaf cymdeithasol yw'r buddiannau torfol neu economaidd a allai ddeillio o'r cysylltiad rhwng unigolion a grwpiau, a'r cydweithredu rhyngddynt. Er bod y gwahanol wyddorau cymdeithasol yn rhoi pwyslais ar wahanol agweddau ar gyfalaf cymdeithasol, maent yn tueddu i arddel yr un syniad craidd, sef bod "gwerth i rwydweithiau cymdeithasol". Gall buddiannau sylweddol iawn ddod i ran cymunedau sy'n gweithio'n glòs ac sy'n cydweithio o ran eu dyheadau ym maes chwaraeon, diwylliant ac addysg.

Er mwyn adfywio'n llwyddiannus, rhaid wrth ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â chydarddoldeb a chynhwysiant. Hanfod adfywio yw dod â holl bobl yr ardal ynghyd, a datgloi eu doniau a'u hegri: ac mae hynny'n golygu bod angen dod â phobl ynghyd beth bynnag y bo'r gwahaniaethau rhyngddynt o ran ethnigrwydd, ffydd, rhyw, oedran, anabledd a chyfeiriadedd rhywiol. Wrth ymroi i'r gwaith hwn, mae angen adlewyrchu natur y boblogaeth leol ym mhob ardal, a'r materion sy'n codi yno.

Mae sefydliadau ym meysydd chwaraeon, y celfyddydau a diwylliant, a'r asedau sydd ganddynt neu'r asedau y maent eu rheoli, yn medru cael effaith bwerus iawn ar adfywio ar lefel gymunedol. Mae gennym dystiolaeth glir y gall cymryd rhan mewn chwaraeon, yn ogystal â gweithgareddau diwylliannol eraill, wneud cyfraniad sylweddol o safbwynt helpu pobl i gael y sgiliau trosglwyddadwy y mae eu hangen ar gyflogwyr. Rhan allweddol o hyn yw mynd i'r afael ag iechyd gwael. Mae cynyddu'r lefelau o weithgarwch corfforol yn flaenoriaeth yn ein Rhaglen Lywodraethu ac yn Creu Cymru Egniol. Yn bwysicach fyth, mae pobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath yn cael profiadau cymdeithasol amgenach. Yn ei dro, mae hynny'n herio dyheadau isel ac yn rhoi hyder i bobl ddatblygu eu hunain drwy ddysgu a hyfforddiant. Serch hynny, rydym hefyd yn cydnabod ei bod yn bosibl na fydd grwpiau o'r fath yn ystyried, heb gael eu cymell, bod ganddynt rôl adfywio ar wahân i'w hamcanion cymdeithasol.

Mae angen i ni sicrhau bod cymunedau'n cael budd o'r hyn a wnawn a bod pob buddsoddiad yn esgor ar y buddiannau mwyaf posibl, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol. Pe byddai gwariant yn y sector cyhoeddus (gan gynnwys gwariant â mandad drwy gaffael) yn cael ei ddefnyddio i recriwtio a hyfforddi lle mae gwir alw, a hefyd i ddatblygu'r gadwyn gyflenwi leol, gellid cynnig rhagor o gyfleoedd economaidd i bobl leol, a fyddai'n ychwanegol at y prif reswm am y buddsoddiad.

5.2.3 Yn seiliedig ar leoedd

Cydnabyddir bod dull o weithredu sy'n seiliedig ar leoedd wedi bod yn llwyddiant o safbwynt gwella nodweddion ffisegol ac amgylcheddol ardaloedd. Yn fwyaf penodol, cydnabyddir bod aneddiadau'n allweddol i adfywio a bod cynnydd yn y galw am adfywio canol trefi a threfi glan môr. Gall y rhain ddod yn ganolfannau datblygu mewn ardal, a gallant gael effaith economaidd ehangach fel lle i gael gwaith, i wneud gweithgareddau hamdden ac i leoli gwasanaethau cyhoeddus.

Hefyd, dylid mapio rhaglenni prif ffrwd fel datblygu economaidd, trafniadaeth, sefydliadau addysg ac iechyd, tai a mentrau amgylcheddol gan gynnwys treftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol er mwyn deall beth yn union sydd ar gael mewn ardal a sut y gellir eu defnyddio i gael yr effaith fwyaf bosibl a gwneud gwir wahaniaeth i'r anheddiad neu'r lle hwnnw. Yn anad dim arall, ansawdd lle sy'n dangos ansawdd cyffredinol y bywyd yno. Mae dangosyddion sy'n seiliedig ar leoedd wedi'u defnyddio fwy nag unwaith i ddeall yn llawn brif agweddau'r profiad cymdeithasol o dlodi. Mae gwella lleoedd (ee yr amgylchedd ffisegol) wedi bod yn amlwg iawn yn y polisi adfywio hyd yma, ond i fod yn effeithiol, rhaid bod cysylltiad rhwng hynny ac adfywio cymdeithasol.



Theatr, Bae Colwyn

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn sbardun pwerus a all feithrin hyder cymunedau ac ysgogi mewnfuddsoddiad. Mae'n gwneud lle'n unigryw ac yn rhoi naws i'r lle hwnnw.

Mae hanes pob lle yn wahanol, felly mae gan bob lle ei gymeriad hanesyddol unigryw ei hun. Mae hynny'n gaffaeliad pwerus iawn wrth adfywio. Man dechrau pob gwaith cynllunio, dylunio a rheoli yw deall cymeriad lle a'r modd y cafodd ei ffurfio. Dyna sut y cedwir y nawys unigryw leol. Mae proses gymeriadu sy'n disgrifio cymeriad hanesyddol ardal ac sy'n nodi'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'i threftadeth, yn adnodd pwysig ym maes adfywio.

Gallwn bortreadu unigrywiaeth leol drwy gymeriadu, sef gweld sut y mae lleoedd wedi cael eu llunio gydag amser a'r hyn sy'n eu gwneud yn arbennig. Heblaw'r traddodiadau adeiladu, mae modd gweld cymeriad hanesyddol ym mhatrymau gofod a'r cysylltiad rhwng adeiladau hefyd. Dyma'r elfennau sy'n rhoi i le ei hunaniaeth unigryw.

Gallwn eu defnyddio i sicrhau bod lleoedd, wrth iddynt barhau i newid, hefyd yn dal eu gafael ar yr hyn sy'n eu gwneud yn arbennig. Mae Cadw wedi bod yn astudio cyfres o drefi ledled Cymru, sydd, bob un, â chymeriad arbennig. Drwy'r astudiaethau hyn cafwyd diffiniad o gymeriad lleol a all adlewyrchu ar y modd yr ydym yn rheoli newid.

Mae'r amddifadedd sydd i'w weld yn gyson yn yr astudiaethau yn cael ei nodweddu'n aml iawn gan gyfuniadau o'r canlynol:

- adfeilion a safleoedd diffaith;
- tir halogedig;
- tai o ansawdd gwael;
- gweithlu heb sgiliau;
- braidd ddim cyfleoedd i gael gwaith;
- anghydraddoldebau iechyd;
- seilwaith drafnidiaeth annigonol;
- ansawdd yr amgylchedd lleol yn wael;
- braidd ddim cysylltiad â'r amgylchedd naturiol.

Er mai mewn ardaloedd trefol y mae'r problemau hyn amlycaf, maent yn effeithio ar ardaloedd gwledig hefyd. Yn wir, er bod y rhan fwyaf o boblogaeth Cymru yn byw yn yr ardaloedd dinesig ar arfordir y de (sydd, ynddynt eu hunain, yn fach o gymharu ag Ewrop), aneddiadau bach mewn cyd-destun gwledig sydd i'w gweld yn y rhan fwyaf o Gymru.

Mae modd mesur perfformiad lleoedd mewn sawl ffordd. Man da i gychwyn fyddai parthau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru; gellir gwneud gwaith manylach yn lleol drwy, er enghraifft, archwilio iechyd canol trefi, defnyddio methodoleg PlaceCheck neu ddefnyddio pecyn Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru ar gyfer asesu'r effaith ar adfywio. Mae Comisiwn Dylunio Cymru wrthi ar hyn o bryd yn datblygu canllawiau, a gaiff eu cyhoeddi yn y gwanwyn, ar gyfer llunwyr trefi.

Geiriau Pwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad Cenedlaethol ar ddechrau eu hadroddiad yn ddiweddar oedd: "Mae canol trefi bywiog a hanfodol wrth wraidd cymunedau cynaliadwy, ac maent yn allweddol i sicrhau economi iach a ffyniannus yng Nghymru."

Mae angen gweithredu'n integredig/holistaid ar draws swyddogaethau awdurdodau lleol, busnesau a chymunedau, nid dim ond prosiectau ffisegol (manwerthu fel arfer) yn unig. Mae angen i'r math yma o weithredu ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau, hybu gweithgareddau diwylliannol, meithrin hunaniaeth ddinesig, a rhoi tref gyfoethocach ei hamgylchedd i'r gymuned ac ymwelwyr. Y weledigaeth yw bod canol trefi yn lleoedd amrywiol iawn lle mae manwerthu'n allweddol, ond lle mae'n cael ei ategu gan gyfleusterau dysgu, iechyd a hamdden, gan roi mwy fyth o reswm i bobl ddod i ganol y dref.



6. Ein fframwaith adfywio newydd

6.1 Cyflawni mewn ffordd gydgyssylltiedig

Rhaid wrth bartneriaeth go iawn i adfywio'n llwyddiannus. Mae gan y sector preifat, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus, bob un, ran i'w chwarae ac maent yn ddibynol ar ei gilydd. Rydym yn ymrwymedig i ddatblygu trefniadau llywodraethu priodol sy'n ei gwneud yn haws i bob un o'r tri sector gyfrannu i'r un graddau at ddatblygu dulliau cynllunio a chyflawni.

6.1.1 Y sector preifat

Rydym yn cydnabod, yn yr hinsawdd sydd ohoni, ei bod yn hollbwysig ysgogi buddsoddiad gan y sector preifat mewn mannau sy'n tangyflawni, ond bod hyn yn anos ei gyflawni. Mae hyder y sector preifat yn arwydd cryf o ba mor gynaliadwy yw buddsoddiadau a wneir gan y sector cyhoeddus i wella lleoedd. Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod bod y sector preifat ei hun dan bwysau, a bod angen i unrhyw fuddsoddiad a wneir ganddo ddwyn ffrwyth o safbwynt yr elfennau busnes craidd, boed hynny'n elw, yn drosiant, yn hygyrchedd, yn farchnata neu'n faterion gweithlu. Mae angen enw da ar gwmnïau, cwsmeriaid sy'n dod yn ôl atynt o hyd, a chadwyn gyflenwi effeithiol ar gyfer eu cynnyrch neu eu gwasanaethau.

Byddwn yn disgwyl i'r sector preifat weithio gyda'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ar y lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i greu gwell cyfleoedd yn ein cymunedau drwy:

- fynd i'r afael â safleoedd lletchwith, er mwyn ysgogi datblygiadau o ansawdd da a all wneud cyfraniad cadarnhaol at y canlyniadau adfywio;
- chwilio am gyfleoedd i fusnesau chwarae rhan ymarferol yn strwythurau cyflawni'r dyfodol;
- rhoi cymorth i gymunedau a phrosiectau o ran mentora busnesau a rheoli prosiectau;
- sicrhau buddsoddiad a chyfraniad gan y sector preifat wrth gyflawni prosiectau a gwasanaethau ar y cyd;
- darparu arbenigedd ym maes caffael a fydd o fudd i gymunedau ac a fydd yn cyfrannu'n fwy uniongyrchol at y canlyniadau adfywio, yn enwedig y manteision i gymunedau Cymru o ran cadwyni cyflenwi lleol. Bydd hyn yn unol ag egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru, sy'n nodi arferion da ym maes caffael a fydd yn dod â manteision i bobl Cymru;
- gwella gallu cymunedau i gael swyddi newydd a hyfforddiant;
- parhau i ddod â mwy o arloesedd i'r farchnad.

Law yn llaw â hyn, byddwn yn ymgysylltu â busnesau i harneisio'r cyfraniad mawr y gallant ei wneud, mewn partneriaeth â'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, i ddatrys y problemau hyn.

6.1.2 Y trydydd sector

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod hyd a lled y sgiliau a'r wybodaeth sydd i'w cael yn y sector, ac felly mae'n awyddus i sicrhau bod y rhain yn cael eu harneisio wrth i'r fframwaith hwn gael ei weithredu ac wrth fynd ati wedyn i gyflawni a datblygu'r rhaglen.

Mae'r trydydd sector, yn ei amryfal ffurfiau, yn chwarae rôl bwysig mewn adfywio, ond rhaid ei gynnwys ar y lefel iawn ac ar yr adeg iawn. Mae'r cyfleoedd a gynigir gan y trydydd sector yn amrywio o wirfoddoli i ddatblygu mentrau cymdeithasol, ac o gyflawni gwelliannau ffisegol i gyflawni gwasanaethau sy'n cyrraedd pobl sy'n ei chael yn anodd cael gafael ar raglenni prif ffrwd.

Mae'r canlyniadau yn cynnwys balchder bro ac ymdeimlad o le, yn ogystal ag iechyd a lles, canlyniadau cymdeithasol a diwylliannol, a sgiliau a chyflogaeth. Daw mwy o gyfle o hyd yn y trydydd sector i gyflwyno modelau menter amgenach. Gallai'r rheini gynnwys amryw o fodelau mentrau cymdeithasol gwahanol, megis cydweithfeydd, busnesau cymunedol ac ymddiriedolaethau datblygu. Mae asiantaethau adfywio mwy o faint yn y trydydd sector, yn enwedig Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, yn dod yn fwyfwy pwysig fel partneriaid mewn prosiectau mawr sy'n cael eu rhoi ar waith mewn ardaloedd lleol. Heblaw bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn sefyllfa dda i gyflenwi prosiectau cyfalaf, gallant gyrraedd grwpiau o bobl ar ymylon cymdeithas drwy ymgysylltu â thenantiaid a'u grymuso. Mae ganddynt berthynas unigryw gyda rhai o'r cymunedau sydd fwyaf ar ymylon cymdeithas.



Plant yng Ngwaith Haearn Blaenafon

Mae'r amrywiaeth o sefydliadau sydd i'w cael yn y trydydd sector yn rhoi llais i grwpiau a dangynrychiolir fedru ymgyrchu am newid, creu cymunedau cryf, gweithgar a chysylltiedig a hybu atebion arloesol i heriau cymdeithasol ac amgylcheddol. Yn eu hanfod, mae sefydliadau'r trydydd sector yn agosach at y gymuned nag y mae'r llywodraeth. Gallant fod yn fwy hyblyg yn eu dull o weithredu ac maent mewn sefyllfa dda i gynghori ynghylch y sefyllfa 'ar lawr gwlad'. Felly, byddwn yn gweithio gyda sefydliadau allweddol eraill yn y trydydd sector i gael safbwyntiau gan y gynulleidfa ehangaf bosibl. Byddwn hefyd yn mynd ati i ymgysylltu, er enghraifft, â'r grwpiau canlynol o bobl ddifreintiedig neu eithriedig:

- Grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig
- Rhieni sengl
- Pobl ifanc
- Pobl hŷn
- Pobl anabl
- Grwpiau anghenion arbennig
- Grwpiau ffydd
- Gofalwyr.

6.1.3 Y sector cyhoeddus

Mae'r sector cyhoeddus yn parhau i fod yn bartner pwysig, yn enwedig awdurdodau lleol a'u gwaith strategol ac o reoleiddio a darparu gwasanaethau. Yn aml, awdurdodau

lleol yw'r prif gorff sy'n cydgysylltu datblygiad economaidd, gwaith adfywio a mynd i'r afael ag amddifadedd yn lleol. Nhw hefyd yw'r prif bartneriaid mewn gwaith cynllunio cymunedol, y broses allweddol er mwyn sicrhau datblygiadau positif mewn cymunedau. Serch hynny, wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn, maent yn dibynnu nid yn unig ar gyrff eraill y sector cyhoeddus, megis cynghorau tref a chymuned, Byrddau Iechyd Lleol a Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch, ond hefyd ar fuddsoddiad gan y sector preifat, ac ymrwymiad cymunedau. Yn yr hinsawdd bresennol lle mae buddsoddiad y sector preifat yn methu, daw cyfrifoldebau a chyfleoedd newydd i awdurdodau lleol ddatblygu eu rôl a rhoi hwb sylweddol i'r broses adfywio.

Yn adroddiad Simpson, "Lleol, Rhanbarthol, Cenedlaethol: Pa wasanaethau yw'r rhai gorau i'w darparu ble", amlinellir yr achos dros gydweithredu er mwyn ymateb i bwysau o ddau gyfeiriad, sef mwy o anghenion o ran gwasanaethau a chyllidebau sy'n lleihau. Yn dilyn yr adroddiad, cytunodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol ar y "Compact ar gyfer Newid" sy'n amlinellu ymrwymadau penodol ar gyfer meysydd gwasanaeth gan gynnwys y rheini sy'n allweddol er mwyn diogelu gwaith adfywio ardaloedd. Fwyfwy, bydd angen edrych ar adfywio lleol yng nghyd-destun economïau rhanbarthol ehangach. Gallai hyn olygu, er enghraifft, manteisio ar wasanaethau arbenigol sydd ar gael yn rhanbarthol ac a gyflenwir yn rhanbarthol, ac ar yr un pryd sicrhau bod caffael cydweithredol yn cynnwys cymalau cymdeithasol i wneud yn fawr o'r manteision i'r economïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Yn ogystal â chydgysylltu'r gwaith a wneir ar draws sectorau, bydd angen cydgysylltu gwaith ar draws amrywiaeth eang o feysydd polisi hefyd er mwyn adfywio'n llwyddiannus. Er bod hyn yn gryn her, gall weithio fel hyn esgor ar fanteision sylweddol i gymunedau ac i sefydliadau.

6.1.4 Tai, Adfywio a Threftadaeth

Fel y bo modd cyflawni mewn ffordd gydgysylltiedig, bydd portffolio Tai, Adfywio a Threftadaeth Llywodraeth Cymru yn ysgogi nifer o adrannau'r Llywodraeth i gynllunio a gweithredu ar y cyd.

Ystyrir *tai* yng nghyd-destun adfywio a arweinir gan dai, elfen bwysig mewn llawer o gynlluniau adfywio. Sicrhau tai fforddiadwy da, ar sail pa ddeiliadaeth bynnag, yw un o brif amcanion Llywodraeth Cymru. Mae manteision buddsoddi mewn cartrefi a gwasanaethau cysylltiedig yn ymestyn ymhell y tu hwnt i roi to dros ben rhywun. Mae cartref boddhaol y gall pobl ei fforddio yn hanfodol er mwyn iddynt fedru byw bywydau iach a chynhyrchiol mewn cymunedau diogel, cryf, cynhwysol a theg. Mae'n rhoi'r dechrau gorau posibl i blant a'r cyfle i gyflawni eu potensial. Gall cartrefi da hefyd leihau allyriadau carbon deuocsid, gan helpu o ran y newid yn yr hinsawdd ac o ran rhoi datblygu cynaliadwy ar waith.

Mae buddsoddiad cyfalaf mewn tai cymdeithasol (sy'n cael ei yrru'n benodol gan yr angen i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru) yn gweddnewid cymunedau. Rhan yn unig o'r newidiadau a ysgogir gan y buddsoddiad hwnnw yw'r effaith ffisegol y mae'n ei gael o ran gwneud cymunedau a'r mannau y mae pobl yn byw ynddynt yn fwy deniadol. Mae'n fodd hefyd i wella lles ac mae'n cael effaith ar dlodi tanwydd (drwy effeithlonrwydd ynni). Mae buddsoddi mewn tai hefyd yn creu cadwyni cyflenwi newydd yn lleol, yn ogystal â chyfleoedd recriwtio a hyfforddiant penodol. At hynny, wrth i gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol gymryd rhan mewn cynlluniau adfywio, gwelwyd gwasanaethau newydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer tenantiad, yn ogystal â datblygiadau defnydd cymysg newydd.

Mae gan y sector preifat hefyd rôl allweddol i'w chwarae drwy gynnig dewis o ran deiliadaeth a thrwy ddarparu tai o ansawdd, sydd hefyd â manteision o ran adfywio. Rhan o'r rôl honno yw darparu cartrefi newydd fforddiadwy sy'n fodd i gryfhau lleoedd a'u gwneud yn fwy llewyrchus. Rhan arall ohoni yw sicrhau llety rhent preifat o safon uchel sydd ar gael i'r rheini y mae arnynt ei angen.

Gall Ardaloedd Adnewyddu Tai gael effaith sylweddol ar adfywio, ac mae angen iddynt fod yn rhan o gynlluniau ehangach, yn enwedig yng nghanol trefi. Dyna pam y bydd arian ar gyfer Ardaloedd Adnewyddu yn cael ei gynnwys yn y dyfodol yn y dyraniadau cyffredinol sy'n rhan o'r gyllideb adfywio, yn hytrach nag ar ffurf ffrwd fuddsoddi ar wahân.

Mae ein seilwaith gwyrdd yn rhoi cyfle i ni gefnogi'r economi werdd drwy gynnig cymorth i adeiladu cartrefi mewn modd cynaliadwy gan ddefnyddio technegau adeiladu gwyrdd. Byddai hynny'n fodd i ysgogi ac i gefnogi economi gwaith coed yn lleol a'r prosesau gweithgynhyrchu modiwlwr cysylltiedig, ynghyd â'r systemau effeithlonrwydd ynni diweddaraf.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cryn bwyslais hefyd ar yr effaith y mae buddsoddi mewn *treftadaeth* yn ei chael ar adfywio, ac ar y rôl sydd gan yr amgylchedd hanesyddol i'w chwarae o ran dod â manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol amlwg i gymunedau yng Nghymru. Rydym yn cydnabod hefyd fod treftadaeth yn bwysig o ran y naws y mae cymeriad hanesyddol yn ei roi i le. A gwyddwn fod gwaith adfywio yn gallu helpu i ddiogelu asedau treftadaeth ffisegol a diwylliannol a sicrhau bod y defnydd gorau yn cael ei wneud ohonynt.

O ran y camau ymarfeol yr ydym yn awyddus i'w cymryd yn hyn o beth, rydym am i fuddsoddiad ym maes treftadaeth fod yn rhan integredig o gynlluniau adfywio ehangach er mwyn helpu i wireddu'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y gall treftadaeth esgor arnynt. Bydd hyn o gymorth hefyd i fanteisio i'r eithaf ar gyllid sy'n gynyddol brin, gan gynnwys, o bosibl, cyllid o dan y rhaglenni Ewropeaidd. Rydym am weld buddsoddiad ym maes adfywio yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r amgylchedd hanesyddol, ac yn cryfhau ac yn hyrwyddo cymeriad hanesyddol. O'r herwydd, bydd cymeriadu yn rhan allweddol o'r gwaith datblygu a fydd yn cefnogi achosion busnes ar gyfer buddsoddiad ym maes adfywio yn y dyfodol.

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn gaffaeliad arbennig sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd ac at lewyrch economaidd. Mae ganddo gryn gyfraniad i'w wneud ym maes adfywio, gan gynnwys: asedau ffisegol, unigrywiaeth leol ac ymdeimlad o le sy'n clymu cymunedau at ei gilydd ac sy'n rhoi hyder ac ymdeimlad o berthyn, ac atyniadau i ymwelwyr. Gall hyrwyddo sgiliau adeiladu traddodiadol fod yn fodd i greu cyfleoedd gwaith mewn cymunedau lleol, a gall helpu i ddiogelu asedau hanesyddol.

Mae adfywio yn fodd i ddenu buddsoddiad ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol, gan ddiogelu'r amgylchedd hwnnw fel y bo'n parhau'n hyfyw ac yn ddefnyddiol; mae'n rhoi ystyr a pherthnasedd newydd i asedau hanesyddol.

Mae dwy elfen i adfywio ar sail treftadaeth. Yn gyntaf, gall treftadaeth arwain gwaith adfywio, yn enwedig yn achos ardaloedd hanesyddol neu asedau hanesyddol o bwys. Yn ail, gall diogelu cymeriad hanesyddol hefyd fod yn un o amcanion cynlluniau adfywio mewn ystyr ehangach, gan greu ymdeimlad cryfach o le a gwneud y defnydd gorau o asedau sydd eisoes yn bod.

Mae yna gyfleoedd allweddol i gydweithio a meithrin perthynas strategol rhwng amryfal gynlluniau. Yn eu plith y mae treftadaeth forol, a chysylltu buddsoddiad â blaenoriaethau daearyddol a strategol Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Fodd bynnag, dylid sicrhau mai un o'r agweddau pwysig ar ddull o weithredu sy'n seiliedig ar leoedd yw cydnabod bod treftadaeth a chymeriad hanesyddol, a'u dehongli, yn elfennau posibl o unrhyw waith adfywio.

Mae gan chwaraeon, y celfyddydau a diwylliant gyfraniad hynod bwysig i'w wneud hefyd o ran creu cymunedau llewyrchus. At hynny, dylid manteisio i'r eithaf ar y gwaith y gall amgueddfeydd a llyfrgelloedd ei wneud fel canolfannau gwasanaethau sy'n cryfhau cymunedau sy'n dysgu.

6.1.5 Meysydd polisi eraill y Llywodraeth

Er mwyn adfywio'n llwyddiannus, rhaid i ni gydgyssylltu'n gwaith yn fwy effeithiol ar draws nifer o feysydd polisi'r Llywodraeth. Dyma rai o'r meysydd hynny:

- **Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth**

Twf a swyddi cynaliadwy yw craidd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn helpu pobl i gael gwaith cynaliadwy drwy roi cymorth uniongyrchol i fusnesau, hwyluso twf swyddi yn y sector preifat drwy wella'r amgylchedd busnes cyffredinol a helpu i greu'r amodau a'r fframwaith i'r sector preifat ffynnu.

Mae'n bwysig ystyried ein polisïau yn y tymor hir, a mynd i'r afael â'r materion strwythurol (seilwaith, sgiliau etc) ond mae angen i ni hefyd leihau'r pwysau sydd ar unigolion a busnesau yn y tymor byr a defnyddio'r gallu sydd gennym i ysgogi'r galw o fewn yr economi.

Mae hynny'n golygu gweithredu yn y tymor byr i helpu busnesau mewn cyfnodau anodd. Er enghraifft drwy ei gwneud yn haws i fusnesau gael gafael ar gyllid (ee Cronfa Twf Economaidd Cymru, y Gronfa Buddsoddi mewn Busnesau Bach a Chanolig); cymryd camau i gefnogi ein microfusnesau (ee y Gronfa Fenthyciadau i Ficrofusnesau); ei gwneud yn haws dechrau a datblygu busnes; cefnogi buddsoddi a masnach ryngwladol; hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i dwristiaid; ac adolygu ein polisïau ar ardrethi busnes yng Nghymru.

Mae hefyd yn golygu bod angen gweithredu yn y tymor hwy, gan fuddsoddi er mwyn creu twf a swyddi yn y dyfodol. Er enghraifft, ehangu ein dull o weithredu ar sail sectorau a chydweithio â chwmnïau angori a chwmnïau sy'n bwysig yn rhanbarthol; hybu twf a swyddi lleol hirdymor drwy sefydlu Ardaloedd Menter ledled Cymru; gwella ein sylfaen wyddoniaeth ac arloesi drwy gydnabod pa mor hanfodol bwysig yw ymchwil a gwyddoniaeth yng Nghymru; a chymryd camau o ran cyfathrebu i safon yr 21^{ain} Ganrif. Yma, bydd Cyflymu Cymru yn darparu band eang y genhedlaeth nesaf i 96% o gartrefi a busnesau erbyn diwedd 2015, a byddwn hefyd yn ystyried sut orau i fynd i'r afael â'r 4% o adeiladau anodd eu cyrraedd nad ydynt yn dod o dan raglen Cyflymu Cymru ar hyn o bryd ac nac ydynt ychwaith yn cael eu cynnwys mewn gwasanaethau sy'n cael eu cyflwyno'n fasnachol.



Llwybr Beicio Clydach

- **Cymunedau yn Gyntaf**

Rhaglen gymunedol yw Cymunedau yn Gyntaf sy'n mynd i'r afael â thlodi ac sy'n helpu cymunedau yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'n gweithio mewn

partneriaeth â'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i gyflawni amcanion cyffredin, sef creu cymunedau llewyrchus, iachach, sy'n dysgu.

- **Cynllunio**

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn darparu fframwaith polisi cenedlaethol cryf sy'n cefnogi gwaith adfywio. Fe'i hategir gan nodiadau cyngor technegol megis TAN 4: Manwerthu a Chanol Trefi, TAN 12: Dylunio, TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored, a TAN 18: Trafnidiaeth. Mae gan awdurdodau cynllunio lleol rôl allweddol i'w chwarae o ran cynorthwyo gyda gwaith adfywio. Gallant wneud hynny drwy sicrhau bod polisiau gofodol priodol yn eu cynlluniau datblygu lleol; drwy benderfynu ar geisiadau cynllunio; a thrwy wella'r amgylchedd adeiledig. Mae'n hollbwysig cyfuno elfennau er mwyn adfywio'n llwyddiannus a chreu ymdeimlad o le yn ein cymunedau. Roedd Adroddiad Pwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad Cenedlaethol ar Adfywio Canol Trefi yn cydnabod hyn.

O fewn y Llywodraeth, rydym yn cydweithio i sicrhau bod gan weithwyr ym maes adfywio yr adnoddau, y capasiti a'r gallu i ganfod eu ffordd drwy'r system gynllunio a chyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Roedd adroddiad diweddar y Grŵp Cyngori Annibynnol "Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol" (Mehefin 2012) yn amlinellu agenda uchelgeisiol a gaiff ei hadlewyrchu yn y gwaith y bydd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn bwrw ymlaen ag ef. Bydd y Biliau arfaethedig ar Gynllunio ac ar Ddatblygu Cynaliadwy yn symleiddio ac yn cryfhau'r fframwaith statudol fel y bo modd adfywio mewn modd integredig.

- **Manteision cymunedol caffael**

Mae tîm Gwerth Cymru yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a sector cyhoeddus Cymru i sicrhau bod ein dinasyddion yn cael y gwerth mwyaf posibl o'r £4.3 biliwn a gaiff ei wario bob blwyddyn ar nwyddau a gwasanaethau allanol. Wrth fuddsoddi mewn adfywio yn y dyfodol, byddwn yn cydymffurfio ag egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru. Yn y cyd-destun hwn, cydnabyddir, wrth weithredu mewn modd sy'n ystyried y manteision i'r gymuned, bod caffael cyhoeddus yn hollbwysig o ran helpu'r sector cyhoeddus i roi contractau ar waith sy'n arwain at ailfuddsoddi mewn cymunedau lleol, gan greu cyfleoedd sy'n helpu pobl ddifreintiedig i ddychwelyd i'r gwaith ac sy'n meithrin cadwyni cyflenwi lleol cryf.

Mae'r dull hwn o weithredu, gan ystyried y gymuned, yn canolbwyntio ar:

- greu cyflogaeth a hyfforddiant i bobl economaidd-anweithgar;
- creu cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig wneud cais i fod yn rhan o gadwyni cyflenwi;
- creu cyfleoedd i grwpiau difreintiedig wneud cais i fod yn rhan o gadwyni cyflenwi, ee Ffatrioedd a Busnesau a Gynorthwyr;
- cymorth o ran addysg;
- cymorth o ran adfywio cymunedol;
- effaith bositif ar yr amgylchedd.

- **Trafnidiaeth**

Mae trafnidiaeth yn chwarae rôl ganolog yn ein bywydau bob dydd.

Mae'n dylanwadu ar le mae pobl yn dewis byw a gweithio, ar y dewisiadau hamdden sydd ar gael iddynt, ac ar y cyfleoedd iddynt ymwneud â'u ffrindiau, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Bydd system drafnidiaeth effeithiol, hwylus a fforddiadwy yn elfen allweddol o'n fframwaith adfywio.

Wrth gynllunio gwasanaethau a chyfleusterau newydd ac adfywio cymunedau, dylai sicrhau hwylustod mynediad iddynt fod yn ystyriaeth sylfaenol, yn enwedig o ran trafnidiaeth gyhoeddus a cherdded a beicio.

Mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol yn seilwaith trafnidiaeth Cymru. Byddwn yn gofalu bod ein buddsoddiad yn dod â'r budd mwyaf posibl i'n cymunedau a'i fod yn helpu i hyrwyddo adfywio drwy recriwtio a hyfforddiant penodol a thrwy ddatblygu'r gadwyn gyflenwi leol. Byddwn hefyd yn cydweithio â phartneriaid fel Network Rail i ofalu bod eu buddsoddiadau mawr, er enghraifft, y buddsoddiad sylweddol i drydaneiddio Llinellau'r Cymoedd a'r cynlluniau sydd ganddynt i adnewyddu'r rhwydwaith ledled Cymru, yn sicrhau manteision economaidd ac adfywio sylweddol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn adolygu dyfodol y rheilffyrdd yng Nghymru, a hynny er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'r rôl y byddwn am iddynt ei chwarae yn y dyfodol. Drwy wneud yn siŵr bod ein rheilffyrdd yn fwy atebol i Weinidogion Cymru, byddwn mewn gwell sefyllfa i sicrhau bod buddsoddiad yn y rheilffyrdd yn cyd-fynd â'n fframwaith adfywio.

Bydd ein Bil Teithio Llesol yn cyflwyno cynigion i'w gwneud yn bosibl i ragor o bobl gerdded a beicio a theithio mewn ffyrdd mwy egniol. Rydym am weld pobl yn dewis cerdded a beicio fel y ffordd fwyaf naturiol ac arferol o fynd a dod. Rydym eisiau gweld rhagor o bobl yn profi'r manteision iechyd, ond gall hefyd leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr, a gall helpu i fynd i'r afael â thlodi ac anfantais. Ar yr un pryd, rydym am helpu ein heconomi i dyfu, a chymryd camau i ddatgloi twf economaidd cynaliadwy.

- **Addysg a sgiliau**

Mae Cymru wedi datblygu dull unigryw o ddelio â'r agenda sgiliau, gan adeiladu ar egwyddorion integreiddio, ymateb, rhannu cyfrifoldebau, ansawdd, cyfle cyfartal a sgiliau o ran y Gymraeg. Mae'n bwysig bod ein system sgiliau yn gallu addasu ac yn gallu wynebu heriau newydd. Mae cydgysylltu yn allweddol, felly, wrth ddatblygu sgiliau, boed ar lefel sector neu ar sail patrwm gofodol drwy adfywio ar lefel ardal neu ar lefel ranbarthol.

Gallai gweithredu ar sail ardal ategu gweledigaeth yr Adran Addysg a Sgiliau i greu fframwaith hyblyg a chydlynus a fydd yn nodi ac yn mynd i'r afael â bylchau sgiliau ymhlith busnesau ac unigolion ar sail ddaearyddol benodol. Byddai'n helpu i sicrhau bod y cyflenwad yn cyd-fynd yn well â'r galw a byddai'n sail i fuddsoddi integredig ar draws portffolios y Llywodraeth ac i ddulliau cyllido amrywiol posibl gan ddefnyddio'r Cronfeydd Strwythurol.

- **Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi**

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal yn golygu ei bod yn hanfodol, yn yr hinsawdd sydd ohoni, ein bod yn parhau i hyrwyddo agenda Trechu Tlodi drwy roi blaenoriaeth i anghenion y tlotaf a'r rheini sydd fwyaf agored i dlodi. Nod ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, a lansiwyd ym mis Mehefin 2012, yw sicrhau gwell bywyd i bawb yng Nghymru ac mae'n canolbwyntio ar y camau a ganlyn:



Parc Riverside Pontardawe

- Atal tlodi, er enghraifft, drwy fuddsoddi a rhoi'r dechrau gorau i blant.
- Helpu pobl i wella eu sgiliau a'u cymwysterau.
- Lleihau'r effaith y mae tlodi'n ei chael ar bobl ar hyn o bryd.

• Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Esboniwyd eisoes bod cydraddoldeb a chynhwysiant yn themâu canolog ym maes adfywio. Yn fwy penodol, mae cysylltiadau rhwng adfywio a'r amcanion yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru, yn enwedig:

- Lleihau'r bylchau o ran cyflogau a chyflogaeth sy'n gysylltiedig ag ethnigrwydd, rhyw ac anabledd, gan wneud hynny drwy gymryd amryw o gamau ym maes addysg a hyfforddiant a thrwy ddarparu gofal plant fforddiadwy;
- Lleihau niferoedd y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant;
- mynd i'r afael â throseddau casineb (p'un ai hil, ffydd, anabledd, rhyw, cyfeiriadaedd rhwyiol neu resymau eraill sydd i gyfrif am y troseddau hynny).

• Yr Amgylchedd

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae pobl wedi dod i sylweddoli'n fwy sut y gall yr amgylchedd naturiol gyfrannu at y broses adfywio. Ar wahân i roi lleoliad hyfryd i weithio a byw ynddo, roedd llawer o'r deunyddiau crai a ysgogodd y chwyldro diwydiannol a'r twf economaidd a welwyd yng Nghymru yn y gorffennol yn dod o'r amgylchedd naturiol, ac mae'r un amgylchedd hwnnw yn cynnig cyfleoedd newydd o ran twristiaeth, cynhyrchu bwyd cynaliadwy yn lleol, storio carbon, a chreu ynni adnewyddadwy; ac o'i reoli'n iawn gall leihau effeithiau niweidiol y newid yn yr hinsawdd, megis llifogydd. O'i reoli'n hollataidd fel adnodd amlochrog ochr yn ochr â gweithgareddau adfywio eraill drwy gynllunio a gweithredu strategol, gallai'r adnodd hwn gynnig amrywiaeth eang o atebion i broblemau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, a thrwy hynny ddatblygu'r potensial i adfywio ardaloedd ledled Cymru. Bydd y Cynllun Datblygu Gwledig yn un dull a ddefnyddir er mwyn manteisio ar gyfleoedd o'r fath.

Mae Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy wedi ymrwymo i wella ansawdd amgylcheddol ardaloedd difreintiedig ac i ddefnyddio'r amgylchedd naturiol i greu cyfleoedd hirdymor i wella bywydau pobl yn yr ardaloedd hynny yn awr ac yn y dyfodol, gan greu cyfleoedd o ran swyddi a sgiliau a gwella iechyd ac ansawdd bywyd. Bydd yn datblygu ei rhaglenni grantiau i sicrhau eu bod yn gweithio ochr yn ochr â mentrau cymunedol ac adfywio eraill ac yn adeiladu ar ddull cyffredin o feithrin cysylltiadau lleol a phennu blaenoriaethau. Gan adeiladu ar fenter lwyddiannus iawn *Trefi Taclus*, mae'r Adran yn cyllido cynllun newydd ar hyn o bryd sy'n profi ffyrdd gwahanol o fynd i'r afael ag ansawdd aer gwael neu lefelau sŵn uchel. Mae Arbed hefyd yn enghraifft wych o raglen sy'n creu manteision o ran tai, manteision economaidd ac amgylcheddol, a manteision o ran mynd i'r afael â thlodi. Mae'r Adran yn gweithio gyda'r cyrff y mae'n eu hariannu i ddatblygu ffyrdd o fynd ati ar y cyd i feithrin cysylltiadau â'r gymuned a chynnig cymorth cymunedol, a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru feithrin cysylltiadau agos â chymunedau lleol er mwyn gweld pa gyfleoedd sy'n agored iddynt.

Byddwn yn cydweithio'n agos â Chyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu'r elfen amgylcheddol, gan ddefnyddio dull a fydd yn seiliedig ar reoli ecosystemau. Byddai modd gwneud yr un peth mewn rhannau eraill o Gymru, a'i wneud yn rhan elfennol o'r fframwaith adfywio ehangach.

• Iechyd

Mae cysylltiadau cryf rhwng agenda adfywio ehangach Llywodraeth Cymru a'i hamcanion o ran iechyd. Mae'r dull gweithredu strategol sydd wedi'i amlinellu yn *Ein Dyfodol Iach ac yn Law yn Llaw at Iechyd* yn seiliedig ar dystiolaeth dda bod rhesymau cymdeithasol dros iechyd da neu wael, a bod y rhan fwyaf o bolisiau'n cael peth effaith ar iechyd, er da neu er drwg. Mae'n gysylltiedig, er enghraifft, â gwaith, trafnidiaeth, tai, swm a mannau gwyrdd. O gydnabod hyn, a gweithredu arno yn yr ysbryd iawn, gallwn lunio polisiau a buddsoddi mewn ffordd sy'n sicrhau manteision o ran iechyd yn ogystal â manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Gall adfywio helpu i wella iechyd meddwl ac iechyd corfforol mewn nifer o ffyrdd, a gellir mesur ei effaith yn rhannol drwy fonitro'r manteision iechyd.

Mae asesiadau o effaith ar iechyd corfforol ac ar iechyd meddwl yn ffordd ddefnyddiol o asesu effaith rhaglenni adfywio. Gall asesiad o effaith ar iechyd fod yn fuddiol o ran nodi cyfleoedd i gael effaith gadarnhaol ar iechyd a lleihau effeithiau negyddol posibl rhaglenni adfywio.

Mewn sawl rhan o Gymru, y GIG, yn aml, yw'r endid economaidd mwyaf. Mae ei rôl fel cyflogwr, defnyddiwr a pherchennog tir yn un sylweddol ac mae'n gyfrifol hefyd am greu llawer iawn o draffig. Oherwydd ei bwysigrwydd economaidd a'r arbenigedd helaeth sydd ganddo, gallem wneud gwell defnydd ar y potensial sydd ganddo i greu ffyniant ac i arloesi.

Mae angen ystyried yn llawn rôl bosibl y GIG o ran hybu adfywio. Mae iddo rôl wasanaethu a buddsoddi amlwg ym mhob rhan o Gymru, a gall wneud mwy i helpu i gynnal gweithlu ac economi lewyrchus drwy:

- ddarparu cyfleusterau o ansawdd uchel, a fydd yn bwysig i gwmnïau sy'n symud i Gymru;
- gwella prosesau ar gyfer rheoli cadwyni cyflenwi a chyrchu'n lleol;
- darparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol, cynlluniau dychwelyd i'r gwaith a chymorth arall ar gyfer pobl leol a chyflogwyr;
- cefnogi gwaith ymchwil a datblygu ac arloesi masnachol o fewn economi Cymru.

Mae allbwn economaidd isel yn un o nodweddion ardaloedd difreintiedig yn aml, a hynny am fod iechyd meddwl a chorfforol yn wael yn yr ardaloedd hynny. Er bod rhai o'r problemau iechyd yn gysylltiedig â gweithgarwch diwydiannol yn y gorffennol neu arferion afiach fel ysmegu, mae yna broblem gynyddol o ran gordewdra oherwydd deiet gwael a diffyg ymarfer corff. Mae diffyg hyder a hunan-barch hefyd yn amlwg mewn rhai cymunedau. Bydd mynd i'r afael â phroblemau iechyd corfforol ac iechyd meddwl yn parhau i fod yn elfen hanfodol o'n gwaith adfywio, gan hybu dulliau mwy egniol o fyw, bwyta'n iach a rhoi'r gorau i ysmegu.

• Diogelwch cymunedol

Mae darparu gwasanaethau cam-drin domestig yn un maes lle mae'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector eisoes yn cydweithio. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach drwy brosiect 10,000 o Fywydau Diogelach, sy'n ceisio gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y rheini sy'n cael eu cam-drin ac sy'n wynebu risg ganolig a safonol. Aethom ati'n ddiweddar i ymgynghori ar gynigion polisi a chynigion deddfwriaethol sydd â'r nod o roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, ar gam-drin domestig a thrais rhywiol.

Caiff ymrwymiad a wnaed yn y Rhaglen Lywodraethu i gyllido 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol gyda'r Heddlu yng Nghymru ei weithredu hefyd.

Bydd y swyddogion hyn yn amlwg iawn yn eu cymunedau, yn siarad â phobl, yn rhoi tawelwch meddwl iddynt ac yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan wneud ein cymunedau yn fwy diogel.

Mae cyfrifoldeb ar yr Awdurdodau Tân ac Achub i gydweithio â'r sector cyhoeddus ehangach a'r trydydd sector, i wella pethau mewn ffordd fesuradwy, gan gynnwys bod yn fwy effeithlon a rhoi lle mwy canolog i'r dinesydd. Mae hyn yn cynnwys gweithgarwch ym maes diogelwch cymunedol, gan gynnwys cymryd camau i leihau tanau bwriadol a chynig Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref.

Bydd y prosiectau hyn yn helpu i wneud cymunedau yn fwy diogel.

6.2 Y fframwaith cyflawni newydd, rolau allweddol a llywodraethu

Er mwyn cyflawni'r hyn sy'n ofynnol yng Nghymru, mae'n rhaid wrth strwythur cyflawni clir sy'n golygu bod modd cydweithio'n llwyddiannus. Mae'r fframwaith newydd yn cryfhau cyflawni lleol ac atebolrwydd lleol o fewn cyd-destun strategol cenedlaethol.

6.2.1 Cyflawni'n lleol

Yn y bôn, mater lleol yw rhoi mentrau adfywio ar waith ac mae pob elfen o'r gwaith hwnnw, neu'r rhan fwyaf ohono, yn galw am ryw fesur o reoli ac atebolrwydd lleol. Mae gan awdurdodau lleol, cynghorau tref a chymuned a chymunedau lleol rolau allweddol i'w chwarae yn hyn o beth, ochr yn ochr â phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Nid oes angen i'r llywodraeth ganolog ficoreoli cynlluniau adfywio lleol a chynlluniau twf lleol. Gall partneriaethau sy'n bodoli eisoes, megis rhwydweithiau'r Cynghorau Gwirfoddol, Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER, a Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd helpu gyda'r gwaith hwn.

Mae awdurdodau lleol yn mynd ati'n barhaus i gasglu llawer iawn o wybodaeth am eu hardaloedd. Ynghyd â thystiolaeth arall sy'n dod i law, caiff yr wybodaeth honno ei bwydo i'r broses flaengynllunio, sy'n gysylltiedig â'r gwaith o baratoi Cynlluniau Integredig Sengl a Chynlluniau Datblygu Lleol ar gyfer eu hardaloedd cyfan. Rhaid i'r gwaith sy'n rhan o'r Cynlluniau hyn gael ei ddatblygu haen ar haen a cham wrth gam, gan gynllunio ar lefelau gofodol uwch ac is. Rhaid iddo:

- fod yn gydnaws ag amcanion/blaenoriaethau strategol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol a rhoi ystyriaeth iddynt;
- llywio barn pobl a hefyd cael ei lywio gan eu barn nhw a chan wybodaeth leol grwpiau cymunedol, yn enwedig lle bo cynlluniau yn cael eu datblygu gan grwpiau o'r fath (ee partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf);
- nid dim ond *ymateb* i anghenion a chyfleoedd adfywio mewn lleoliadau penodol ond mynd ati i greu cyfleoedd (ee drwy gynllunio cysylltiadau rhwng anghenion a chyfleoedd – o bosibl drwy greu cysylltiadau ffisegol newydd, gwell mynediad i wasanaethau, cysylltiadau TGCh, hyfforddiant etc);
- nodi ble yn ofodol mae'r blaenoriaethau adfywio ar gyfer buddsoddi a chymorth, ar sail asesiad clir o dystiolaeth a chan nodi amcanion clir;
- nodi amrywiaeth o ymyriadau sy'n realistig o ran y cyllid y gellir ei ddenu ac y gellir eu gweithredu o ystyried yr arbenigedd a'r capasiti sydd ar gael.

Fel Llywodraeth Cymru, mae awdurdodau lleol yn cydnabod yr angen am ddull adfywio sy'n cynnwys pob gwasanaeth. Mae awdurdodau lleol yn gallu rheoli cyllidebau prif ffrwd a'r gwasanaethau a ddarperir mewn ffyrdd sy'n hybu adfywio i'r eithaf

(ee gall prosiect i adeiladu ysgol newydd fod yn gyfle datblygu cymunedol, yn fodd i gynnig contractau a chyfleoedd cyflogi yn lleol, yn lleoliad ar gyfer addysg gymunedol, yn fodd i wella cyfleusterau chwaraeon, gwella'r amgylchedd lleol, darparu llwybrau cerdded a beicio newydd etc). Gall awdurdodau lleol hefyd ddylanwadu'n fawr ar gynlluniau adfywio yn rhinwedd eu rolau fel cyflogwyr lleol pwysig a chyrff sy'n caffael gwasanaethau.

Yn yr un modd, mae pob math o wasanaethau llywodraeth leol yn gallu cyfrannu'n uniongyrchol at fentrau adfywio lleol penodol – gwelliannau i briffyrdd a thrafnidiaeth, gwelliannau amgylcheddol a gwaith cynnal a chadw ar dir y cyhoedd, addysg gymunedol, darparu gwasanaethau a chyfleusterau hamdden a diwylliannol, ymyriadau diogelwch cymunedol, cymorth i fusnesau lleol, gwella mynediad cymunedol i gyfleusterau ysgolion, gweithgareddau datblygu cymunedol, gwella'r stoc tai etc. Gall hyn ddigwydd hefyd pan fydd swyddogion llywodraeth leol yn darparu arbenigedd ar gyfer cymunedau lleol mewn perthynas â materion cynllunio, cael gafael ar gyllid, a rhoi cyngor cyfreithiol a chyngor ar TGCh hyd yn oed.

Drwy eu cysylltiadau ag amrywiaeth eang o asiantaethau partner wrth ddarparu gwasanaethau, mae awdurdodau lleol mewn sefyllfa dda hefyd i drefnu gwaith partneriaeth lleol.

Mae Byrddau Gwasanaethau Lleol wedi tynnu ynghyd asiantaethau allweddol sy'n gweithredu o fewn ardal yr awdurdod lleol i nodi dulliau o gydweithio ym mhob math o feysydd, gan gynnwys adfywio. Mae gan lawer o awdurdodau lleol bartneriaethau adfywio penodol sy'n helpu i greu cytundeb rhyngddynt o ran blaenoriaethau a datblygu dull amlasiantaethol o gyflawni mewn ffordd sy'n ychwanegu gwerth.

Dylai cynghorau tref a chymuned hefyd gymryd rhan amlwg yn y broses adfywio, a helpu partneriaid eraill i ddod i gysylltiad â chymunedau. Rydym yn cydnabod mai ar lefel gymunedol y mae llawer o'r creadigrwydd a'r egni sydd ei angen i adfywio ardaloedd Cymru. Mae mentrau hyperleol, boed ar y we neu ar apps, er enghraifft, yn dod yn fwyfwy poblogaidd fel adnoddau allweddol ar gyfer adfywio cymunedol.

Mae'n hanfodol bod cymunedau lleol yn cael chwarae rhan yn y gwaith o adfywio'u cymunedau. Mae gan Fyrdau Gwasanaethau Lleol rôl bwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod adfywio'n elfen gref yn eu cynlluniau integredig sengl ac o ran datgan yn glir sut y bydd camau gweithredu'n cael eu cyflawni a'u monitro. Mae'n bwysig hefyd fod gwaith yn y maes hwn yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n gyson â'r Cynllun(iau) Datblygu Lleol perthnasol.

Byddwn yn gofyn i awdurdodau lleol sy'n cydweithio â gweddill y sector cyhoeddus, a'r sector preifat a'r trydydd sector (hy partneriaethau lleol) wneud cais am gyllid buddsoddi penodol ar gyfer adfywio ar sail y meini prawf hyn: canol trefi, cymunedau arfordirol a chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf.

Lle bo hynny'n bosibl, er enghraifft yn achos twf economaidd a swyddi, byddwn yn ceisio mynd ati i ddatblygu prosiectau ar y cyd gan gyfuno ein cyllid gyda chyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ar draws cynifer o flaenoriaethau ag y bo modd. Mae potensial i brosiectau holistaidd integredig sicrhau gwell canlyniadau a hynny'n fwy effeithiol, drwy:

- ffurfio cysylltiad rhwng yr amryfal themâu gwaith, fel bod mwy o ffocws ar ganlyniadau adfywio mewn ardal benodol, hynny yw, gweithredu'n holistaidd dros ardal gyfan;

- meithrin perthynas fwy effeithiol rhwng y cyfleoedd ariannu cyfatebol yn Llywodraeth Cymru a'r sefydliadau perthnasol sy'n bartneriaid;
- llai o gostau rheoli/gweinyddu prosiectau;
- mwy o gyfle i gydweithio ar draws ffiniau a sectorau;
- mwy o hyblygrwydd i addasu gweithgareddau ac i symud blaenoriaethau wrth i brosiectau gyflawni neu wrth i gyfleoedd ddatblygu;
- llai o bosibilrwydd y bydd gweithgareddau'n cael eu dyblygu.

Dylai partneriaethau lleol roi ystyriaeth benodol i:

- strategaethau sy'n bodoli eisoes, neu sy'n cael eu datblygu, ac iddynt ffocws gofodol, er enghraifft buddsoddi ar raddfa fawr mewn trafnidiaeth (yn arbennig trydaneiddio'r rheilffyrdd), Ardaloedd Menter, cynlluniau rheoli cyrchfannau etc;
- cynllunio holistaidd ar sail ardal sy'n ystyried y rolau cydategol sydd gan aneddiadau, a'r cysylltiadau rhyngddynt;
- rôl cyrchfannau gwirioneddol eiconig o fewn yr economi;
- yr effaith y bydd buddsoddiad a gwariant cyfalaf arfaethedig ym meysydd lechyd ac Addysg, yn awr ac yn y dyfodol, yn ei chael ar wasanaethau;
- y cyfleoedd sy'n deillio o'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ac unrhyw fuddsoddiad arfaethedig arall mewn seilwaith, unrhyw fylchau, a'r potensial i ddefnyddio seilwaith gwyrdd a glas i adfywio'r economi;
- cyfleoedd i gydweithio ar draws rhanbarthau;
- yr effaith a gaiff newidiadau mewn meysydd polisi nad ydynt wedi'u datganoli, er enghraifft diwygio lles, ar gymunedau;
- yr heriau sy'n wynebu meysydd cydraddoldeb penodol, yn ogystal â chymunedau Cymraeg, a chyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb a chanlyniadau cynhwysol i holl ddinasyddion Cymru;
- trefniadau a gynlluniwyd ac a drefnwyd yn ofalus ar gyfer hyrwyddo a marchnata, mewn partneriaeth â Croeso Cymru, sy'n hyrwyddo gweithgarwch adfywio ac yn tynnu sylw at gyfleoedd i fuddsoddi ac at gyfleoedd twristiaeth yng Nghymru, yn ogystal â dangos lle mor rhagorol yw ein gwlad i fyw ynddo.

6.2.2 Cydgysylltu ar lefel ranbarthol

Mae angen cydgysylltu ar lefel ranbarthol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i Gymru yn y ffordd fwyaf effeithlon. Mae hynny'n adeiladu ar agenda Llywodraeth Cymru i weld gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio. Nid yw'r economi, er enghraifft, wedi'i rhwymo gan ffiniau awdurdodau lleol a chydabyddir nad oes modd wynebu heriau ar ein pennau ein hunain. Mae angen i awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol eraill gydweithio er mwyn datblygu economi gryfach. Mae'r dull gweithredu hwn wedi'i dreialu ar draws y Cymoedd gan ganolbwyntio ar yr amgylchedd, treftadaeth a thwristiaeth drwy Raglen Parc Rhanbarthol y Cymoedd, ac, at ei gilydd, mae wedi'i ystyried yn llwyddiant.

Dyma fanteision gweithio ar lefel ranbarthol:

- Sicrhau bod gweithgareddau adfywio yn rhai gwirioneddol integredig a bod iddynt ffocws penodol, a hynny er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl.
- Sicrhau bod buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn adfywio yn cael ei gyfeirio lle y bydd fwyaf effeithiol ac yn rhoi'r gwerth mwyaf am arian.

Yn hytrach na chreu haen arall o fyrddau rhanbarthol, byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i weithio'n rhanbarthol, gan ystyried sut y gellir cydgysylltu ar lefel ranbarthol a chan edrych ar botensial cynllunio ar lefel ranbarthol.

6.2.3 Goruchwyllo a hwyluso ar lefel strategol genedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati yn y fframwaith hwn i bennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer adfywio, ynghyd â'r canlyniadau cenedlaethol a ddymunir. Byddwn yn darparu cyllid i ysgogi a chefnogi prosiectau a rhaglenni adfywio allweddol, ac adnoddau dynol i gefnogi camau rhanbarthol a lleol er mwyn cyflawni'r amcanion. Byddwn yn monitro hynt y rhaglenni hyn ac yn gwerthuso'u llwyddiant. Byddwn hefyd yn ei gwneud yn bosibl cydgysylltu gweithgareddau Llywodraeth Cymru, yn ogystal â gweithgareddau ledled Cymru sy'n cynnwys sectorau eraill. Bydd buddsoddiad ym maes adfywio yn cyd-fynd â pholisïau strategol cenedlaethol y Llywodraeth megis Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi, a'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu mewn perthynas â'r Bil Cynllunio. Yn ogystal, bydd yn ategu cynllun gweithredu Trechu Tlodi, bydd yn gydnaws ag egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn gweithio gyda mentrau megis Ardaloedd Menter. Bydd hefyd yn ymwneud ag Ardaloedd Twf Lleol a Dinas-ranbarthau os caiff y rheini eu sefydlu.

Er mwyn llwyddo i gyflawni hyn, bydd angen i bob rhan o'r Llywodraeth ymegnio i gydgyssylltu â'i gilydd ac â phartneriaid. I hwyluso'r broses, rydym am sefydlu Grŵp Cynghori'r Gweinidog, dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth. Bydd gan y Grŵp gylch gwaith eang sy'n cwmpasu sawl portffolio. Neilltuir adnoddau penodol ar ei gyfer, o ran ysgrifenyddiaeth a chyllideb ymchwil. Bydd disgwyl iddo adolygu'r fframwaith hwn yn rheolaidd, a defnyddio tystiolaeth o bob adran a thu hwnt er mwyn rhoi cyngor i Weinidogion am strategaeth a gweithredu.

Amgaeir cylch gorchwyl y Grŵp yn Atodiad A.

I ategu gwaith y Grŵp, bydd bwrdd adfywio o fewn Llywodraeth Cymru, a fydd yn gysylltiedig â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, yn goruchwyllo'r gwaith adfywio ar lefel yr Uwch Wasanaeth Sifil. Gofynnir i'r bwrdd oruchwyllo'r gwaith o ddatblygu adnodd Asesu Effaith Adfywio i'w defnyddio gan Lywodraeth Cymru (a buddsoddwyr allanol maes o law) wrth wneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi. Dylai hyn helpu i dargedu buddsoddiad ond hefyd sicrhau cynifer o fanteision adfywio â phosibl unwaith y bydd penderfyniadau wedi'u gwneud, er enghraifft drwy sicrhau manteision cymunedol lle bynnag y bo modd.

Byddwn yn ymchwilio i ffyrdd o symleiddio a gwella'r cymorth sydd ar gael i greu a datblygu mentrau cymdeithasol, sydd â rôl bwysig wrth adfywio lleoedd. Yn benodol, byddwn yn cydweithio ag arianwyr a buddsoddwyr eraill i greu cyfleoedd newydd sy'n gysylltiedig â gallu cymuned i wrthsefyll problemau a chreu twf lleol, gan gynnwys:

- cefnogi pobl ifanc a'u rhieni (ee drwy ofal plant a chyfleoedd chwarae);
- helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau (drwy ofal cymdeithasol);
- sicrhau bod adnoddau ar gael a'u bod yn fforddiadwy (drwy gynhyrchu a dosbarthu bwyd, ac effeithlonrwydd ynni a microgynhyrchu);
- ysgogi busnesau cymdeithasol newydd;
- gwneud defnydd gwell o eiddo gwag, adeiladau sydd mewn perygl ac asedau a reolir gan grwpiau lles cymdeithasol.

Byddwn yn parhau i gynnal Uwchgynadledau Adfywio Cenedlaethol ar adegau allweddol pan fydd yn briodol tynnu ynghyd bartneriaid o bob rhan o Gymru a

thu hwnt. Byddwn hefyd yn datblygu rhaglen o ddigwyddiadau, sy'n gysylltiedig â chyfleoedd yn Llundain a phob rhan o Ewrop, er mwyn ysgogi mwy o ddiddordeb ymhlith buddsoddwyr mewn safleoedd adfywio allweddol.

Byddwn yn cydweithio â phartneriaid i gydgyssylltu seminarau arbenigol, ar bynciau fel Ardaloedd Gwella Busnes, defnydd dros dro, a champau gorfodi, er enghraifft, i addysgu gweithwyr proffesiynol ym maes adfywio.

Byddwn yn sefydlu Ymgyrch Cefnogi'r Stryd Fawr, gan gytuno ar y dyddiad a'r fformat gyda rhanddeiliaid allweddol, a dyrannu cyllid ar gyfer hysbysebu cenedlaethol er mwyn annog pobl i gefnogi eu siopau lleol. Bydd gwaith celf yr ymgyrch ar gael i bartneriaethau lleol fel y gallant ei gydgyssylltu â'u digwyddiadau lleol eu hunain. Byddwn yn chwilio am bartneriaid ar lefel leol i fanteisio ar yr ymgyrch genedlaethol i drefnu eu gweithgareddau, eu digwyddiadau a'u mentrau adfywio.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd tystiolaeth a gwerth ymchwil a chynllunio er mwyn sicrhau bod hyn yn dod yn rhan naturiol o'r gwaith o ddatblygu polisi. Byddwn yn sefydlu rhaglen dreigl o ymchwil ac astudio i sicrhau bod y polisi y byddwn yn ei ddatblygu ac yn ei weithredu yn seiliedig ar gefndir damcaniaethol ac ymarferol cadarn. Mae angen i'r wybodaeth ddiweddaraf ar leod yng Nghymru fod ar gael i ni hefyd. Byddwn yn parhau i wneud ein gwaith ymchwil a gwerthuso ein hunain, yn ogystal â chynig cyllid i bartneriaid nodi a rhannu arferion gorau, ac i gefnogi arloesi.

6.3 Buddsoddi

6.3.1 Cyfleoedd buddsoddi/cyllido

Er mwyn gwireddu gweledigaeth 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid', bydd angen defnyddio pob math o ddulliau cyllido mewn modd arloesol ac effeithiol, gan achub ar bob cyfle i gyfuno cyllid cyfalaf a refeniw o wahanol ffynonellau yn unol â'r meini prawf unigol a bennir ar gyfer pob cronfa er mwyn dod i drefniant cyllido integredig.

Dyma'r prif gyfleoedd tebygol:

- dyraniadau adrannol Llywodraeth Cymru
- Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020 (ERDF, ESF, EAFRD ac EMFF)
- Rhaglenni eraill yr UE (Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Interreg, LIFE etc)
- Cronfa Dreftadaeth y Loteri
- Y Gronfa Loteri Fawr
- Cyfraniadau gan Awdurdodau Lleol
- Cyfraniadau Buddsoddi a Benthyciadau gan y Sector Preifat

Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, ac amcanion Ewrop 2020 ar gyfer twf call, cynaliadwy a chynhwysol, mae cynigion wedi'u datblygu ar gyfer rhaglenni newydd y Cronfeydd Strwythurol, gyda ffocws clir ar swyddi a thwf.

Bydd y cynigion ar gyfer achosion busnes a amlinellir yma yn darparu'r sylfaen strategol a'r dystiolaeth o'r angen a fydd yn sail i'r gwaith o ddatblygu cynigion cyllido a fydd yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd gennym. Yn amlwg, mae cronfeydd strwythurol yr UE yn debygol o fod yn elfen bwysig; a thrwy weithio gyda phartneriaid drwy'r byrddau adfywio, byddwn yn ceisio tynnu ynghyd arian cyfatebol i helpu i flaenoriaethu buddsoddiadau i sicrhau ein bod yn defnyddio unrhyw gronfeydd sydd ar gael gan yr UE yn effeithiol.

Byddwn yn cydweithio â WEFO a'r Gyfarwyddiaeth Rhaglenni Ewropeaidd i gydgysylltu a chefnogi gwaith i ddatblygu cynlluniau busnes er mwyn cael cyllid oddi wrth yr UE, gan wneud hynny fel y bo modd cyflawni canlyniadau'r cynlluniau adfywio, yn hytrach na dim ond fel modd i sicrhau cyllid. Caiff prosiectau eu blaenoriaethu yn ôl meini prawf yr UE a Llywodraeth Cymru a byddant yn sail i raglenni integredig strategol a fydd yn cynnwys partneriaethau rhanbarthol a lleol priodol.

6.3.2 Ein blaenoriaethau ar gyfer cyfeirio cyllid penodol

Er y caiff cyllidebau prif ffrwd eu defnyddio i wneud y rhan fwyaf o waith adfywio yng Nghymru, mae yna sail dros dargedu cyllid ychwanegol i ysgogi camau sy'n debygol o sicrhau adfywio llwyddiannus, a chefnogi ymyriadau y gwyddom eu bod yn llwyddiannus ond nad oes ffrydiau ariannu eraill ar eu cyfer.

Rydym wedi pennu blaenoriaethau ar gyfer y manau hynny lle byddwn yn targedu buddsoddiad adfywio er mwyn cefnogi mentrau holistaidd dros ardal gyfan. Mae yna dair blaenoriaeth, sy'n adlewyrchu'r sylwadau a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad. Maent yn gorgyffwrdd â'i gilydd, ac yn wir mae'r cysylltiadau rhyngddynt yn bwysig iawn. Nid ydym yn bwriadu iddynt fod yn labeli a fydd yn gwahaniaethu rhwng aneddiadau. Yn hytrach, mae pob un yn cynrychioli ystod o nodweddion a heriau sy'n cydblethu. Dyma'r blaenoriaethau:

- Canol trefi sy'n gwasanaethu trefi'r 21^{ain} Garrif;
- Cymunedau arfordirol;
- Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf.

Canol trefi sy'n gwasanaethu trefi'r 21^{ain} Garrif

Canol tref yw curiad calon cymuned; yno mae pobl yn cwrdd, yn siopa ac yn gweithio. Rydym yn cydnabod rôl bwysig canol ein trefi ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau dyfodol cynaliadwy iddynt ledled Cymru.

Un o'r prif heriau sy'n wynebu cymunedau trefol yw dirywiad y stryd fawr draddodiadol. Yn aml, rydym yn meddwl am hyn yn nhermau bygythiad i fanwerthwyr annibynnol. Ond mae'r trafferthion y mae cadwyni o siopau uchel eu proffil wedi'u profi'n ddiweddar wedi'n hatgoffa bod y newid yn ein harferion siopa, yn benodol ar-lein ac mewn siopau y tu allan i drefi, ynghyd â'r gostyngiad yn incwm pobl, yn achosi anawsterau i bawb ar y stryd fawr.

Er y bydd modd cynnal manwerthu mewn rhai canolfannau trefol, mae'n amlwg na fydd hyn yn wir am bob un. Mae mwy a mwy o eiddo yng nghanol trefi yn cael ei ailddatblygu – gan gydnabod a chadw ei gymeriad hanesyddol – er mwyn darparu cartrefi a gwasanaethau lleol. Ochr yn ochr â dyfodol ein stryd fawr, mae'n bwysig ystyried y berthynas – hy y cysylltiadau a'r rhyngddibyniaeth – rhwng aneddiadau trefol a'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys lle bo'n briodol eu hardaloedd gwledig cyfagos sydd â photensial o ran twristiaeth y mae'n rhaid ei ddefnyddio, drwy waith rheoli cyrchfannau effeithiol, i gynyddu nifer y bobl sy'n ymweld â chanol trefi a chreu economi leol fwy amrywiol.

Yn aml mae nifer o fusnesau newydd yn ei chael yn anodd dod o hyd i safle, naill ai i brofi'r farchnad neu i ymsefydlu. Mae pob busnes newydd yn wahanol, o ran ei natur a'i faint. Byddwn yn hyrwyddo defnydd dros dro a dulliau eraill o ddefnyddio adeiladau yng nghanol trefi, gan gydweithredu â gwasanaethau dechrau busnesau, er enghraifft

unedau deori, cyfleusterau profi'r farchnad, datblygu gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â manwerthu.

Mae ein haneddiadau gwledig hefyd yn dioddef yn sgil pwysau eraill ac yn wynebu cyfres wahanol o heriau o ran hybu llewyrch ac addewid. Mae poblogaethau bach, diffyg hwylustod o ran mynediad a chysylltedd, a diffyg TGCh a gwasanaethau band eang i gyd yn ffactorau sy'n cyfyngu ar dwf lleol. Gall lleoliad anghysbell fod yn gyfle i fanteisio arno, ond gall hefyd fod yn rhwystr sy'n golygu ei bod yn anodd cynnal lleoedd llewyrchus llawn addewid. Mae cynnal aneddiadau sydd â chysylltiadau gwael yn gryn her. Yn yr un modd, mae cynnal gwasanaethau yn yr aneddiadau hynny ar yr ucheldir sy'n ganolfannau pwysig ar gyfer ardaloedd gwledig, yr un mor heriol.

Mae angen i ni helpu canol ein trefi i ystyried a dod o hyd i'r posibilïadau o ran dyfodol gwahanol, dyfodol amgen. Dros y 10 mlynedd nesaf, rydym am ganolbwyntio ar helpu'r stryd fawr i arallgyfeirio a gwneud penderfyniadau anodd. Byddwn hefyd yn atgyfnerthu'r hyn sy'n ei gwneud yn arbennig. Nid yw ein trefi yn mynd i allu dibynnu ar fanwerthu'n unig; mae angen i ni ddatblygu ein trefi'n lleoedd y mae pobl am fyw, gweithio a hamddena ynddynt. Mae angen i'n trefi ymateb yn gryf i'r heriau sy'n eu hwynebu. Ni ddylem ystyried y Rhynggrwyd yn fygythiad mwyach. Mae angen ei ystyried yn gyfle, i'w groesawu ac i fanteisio arno. Mae angen i'n trefi ddatblygu nodweddion arbenigol, pwyntiau gwerthu unigryw, rheswm i bobl ymweld â nhw. Bydd hyn yn cynnwys economi fwy amrywiol a bywiog gyda'r nos, a sicrhau bod gwasanaethau fel iechyd ac addysg yn cael eu darparu fwyfwy o ganol trefi.

Cymunedau arfordirol

Mae gan lawer asedau naturiol unigryw a threftadaeth forol sy'n ychwanegu at yr hyn sy'n eu gwneud yn ddiddorol ac yn unigryw. Er bod rhai'n llwyddo o'r newydd yn sgil eu gwreiddiau hanesyddol a buddsoddiad newydd, mae eraill yn ei chael yn anodd cyfrannu fel yr arferent wneud i'w heconomiâu lleol. Wrth i batrymau twristiaeth newid, mae "trefi glan môr" – neu gyrchfannau traddodiadol – wedi colli eu poblogrwydd a'u llewyrch. Wrth fynd ati i'w hadfywio, mae angen cydnabod a gwneud y mwyaf o bwyntiau gwerthu unigryw heb lynu wrth obaith ffals ynghylch ail-greu gwychedder y gorffennol. Er enghraifft, gall pob cymuned arfordirol fanteisio ar Lwybr Arfordirol Cymru. Mae'n eu cysylltu a hefyd yn dathlu'r ffaith eu bod yn lleoedd dymunol i fyw ynddynt ac ymweld â nhw.

Mae trefi glan môr yn wynebu heriau tebyg, ond gan eu bod yn grŵp unigryw o leoedd, mae'r heriau sy'n eu hwynebu hefyd yn unigryw. Oherwydd eu hanes o dwristiaeth ac, ar y cyfan, bwysigrwydd parhaus y sector hwn, maent yn tueddu i rannu nifer o nodweddion sy'n eu gwneud yn wahanol i leoedd eraill ar hyd yr arfordir neu ymhellach i mewn i'r tir. Er enghraifft, mae iddynt seilwaith twristiaeth arbenigol (prom, pier, parciau etc), llety gwyliau (gwestai, gwely a brecwast, safleoedd carafannau etc) a chymeriad unigryw sy'n aml yn cael ei adlewyrchu yn yr amgylchedd adeiledig. Ac er y bydd rhai lleoedd wedi llwyddo'n well nag eraill, maent i gyd, i raddau mwy neu lai, wedi wynebu heriau yn sgil y ffaith bod strwythur masnach wyliau'r DU yn newid.

Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf

Drwy glystyrau newydd Cymunedau yn Gyntaf, mae gennym ffordd o helpu'n partneriaid i wella bywydau pobl mewn ardaloedd difreintiedig, drwy fynd i'r afael â thlodi a gwella lles. Bydd llawer o'r dyheadau sydd gan glystyrau ar gyfer eu hardaloedd

yn ddibynnol ar fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol, i ategu'r cyllid sydd ar gael o dan raglen Cymunedau yn Gyntaf ei hun. Rydym yn disgwyl i glystyrau gymryd rhan amlwg yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu prosiectau adfywio.

6.3.3 Sut y byddwn yn dyrannu ac yn ymrwymo cyllid adfywio sydd wedi'i dargedu

Byddwn yn parhau i ddarparu swm cyfyngedig o gyllid i dargedu buddsoddiad adfywio, fel cronfa i'w ddefnyddio pan fetha popeth arall, a fydd yn ychwanegol at y prif gyllidebau a fydd yn talu am y rhan fwyaf o'r gwaith adfywio. Bydd Cymru gyfan yn gymwys i wneud cais am y cyllid hwn.

Bydd partneriaethau lleol (hy awdurdodau lleol sy'n cydweithio â'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector) yn gallu cyflwyno ceisiadau i Lywodraeth Cymru o dan dair thema allweddol, sef canol trefi, cymunedau arfordirol a chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Bydd y ceisiadau hynny'n dilyn egwyddorion model busnes y pum achos. Bydd ymrwymïadau sydd eisoes yn bod, er enghraifft, i'r Ardaloedd Adfywio presennol ac i'r cynlluniau adnewyddu tai presennol, yn cael eu tynnu o'r gyllideb a fydd ar gael i'r partneriaethau lleol wneud cais amdani. Bydd angen i bartneriaethau bwysu a mesur sut i reoli'r cyfnod pontio rhwng y rhaglenni buddsoddi hyn a'r cynlluniau a'r blaenoriaethau newydd. Bydd yn bwysig hefyd, wrth ddatblygu strategaethau newydd ar gyfer targedu cyllid, sicrhau bod effeithiau buddsoddiadau blaenorol yn cael eu gwarchod a'u bod yn sail i waith pellach.

Bydd gofyn wedyn i bartneriaethau ddatblygu portffolio o brosiectau blaenoriaeth i'w hystyried gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth a chan Grŵp Cynghori'r Gweinidog. Bydd angen i'r cynigion hyn ddilyn model busnes y pum achos sydd, erbyn hyn, yn cael ei ddefnyddio'n eang o fewn Llywodraeth Cymru fel y bo modd asesu cynigion yn drwyadl.

Dyma amcanion y cyllid:

- mynd i'r afael â thlodi drwy greu swyddi a helpu pobl i gael gwaith;
- buddsoddi mewn ffordd fwy penodol a dwys mewn llai o ardaloedd;
- mynd i'r afael â themâu sy'n berthnasol i ganol trefi, cymunedau arfordirol a chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf, gan wneud y mwyaf o'u treftadaeth a'u cymeriad hanesyddol, a buddsoddi mewn tai, er mwyn gwella lefelau ffyniant, dysg ac iechyd i greu cymunedau llewyrchus, llawn addewid;
- gweithredu prosiectau strategol, sy'n bwysig i'r rhanbarth, a gwneud hynny ar raddfa sylweddol;
- denu cymaint o fuddsoddiad ychwanegol â phosibl, yn benodol o raglenni Ewropeaidd ac o'r sector preifat.

Dyma'r dangosyddion perfformiad allweddol y byddwn yn eu defnyddio i asesu ceisiadau:

- Y buddsoddiad a ysgogir (gan rannu'r buddsoddiad hwnnw yn ôl sectorau – cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector)
- Canran y gwariant a gedwir o fewn cadwyni cyflenwi yng Nghymru
- Nifer net y swyddi ychwanegol a gaiff eu creu
- Nifer y bobl a gaiff eu helpu i gael gwaith (gan gynnwys drwy recriwtio a hyfforddiant a dargedir)

Mae'r dangosyddion hyn yn rhoi hyblygrwydd i dargedu buddsoddiad adfywio at ymyriadau ar yr ochr gyflenwi ac ar ochr y galw; hynny yw, creu swyddi a helpu pobl i gael swyddi sydd naill ai eisoes yn bodoli neu a gaiff eu creu gan fuddsoddiad arall. Gallai camau i hwyluso mynediad i swyddi gynnwys ymyriadau, **sy'n ychwanegol at ddarpariaeth y brif ffrwd**, megis:

- cysylltu gwasanaethau cyflogaeth sy'n bodoli eisoes â manteision cymunedol drwy fuddsoddiad cyfalaf;
- gwella cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu lleol;
- darparu mwy o ofal plant fforddiadwy, o ansawdd uchel;
- cymorth cyflogaeth a dargedir.

Bydd disgwyl i noddwyr prosiectau ddatblygu canlyniadau eraill, a dewis dangosyddion eraill, sy'n briodol i'w prosiectau penodol nhw, gan ddefnyddio methodoleg Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn arfarnu'r ceisiadau ar gyfer prosiectau lleol, gan ymgynghori â phob adran ac â Grŵp Cynghori'r Gweinidog. Rydym yn cadw'r hawl i beidio â dyrannu'r holl gyllid. Rhaid i geisiadau am brosiectau:

- ddangos sut y bydd y prosiect yn helpu pobl i gael gwaith, naill ai drwy greu swyddi neu drwy ddulliau eraill;
- dangos ymrwymiad rhanbarthol yn ogystal ag ymrwymiad lleol, gan ddangos cyfleoedd i gydweithio ar draws sectorau ac ar draws ffiniau;
- dangos sut y byddai'r buddsoddiad yn ategu cyllid prif ffrwd, ond nid yn disodli'r cyllid hwnnw;
- cefnogi camau i dargedu recriwtio a hyfforddiant, yn ogystal â chefnogi cadwyni cyflenwi lleol a manteision cymunedol eraill;
- dangos ymrwymiad clir i ddatblygu cynaliadwy er mwyn cynnal cydbwysedd rhwng cyfleoedd a chyfyngiadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, a rhaid iddynt fod yn hyfyw yn y tymor hir.

Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i geisiadau prosiect sy'n defnyddio modelau ariannol arloesol, er enghraifft, prosiectau sy'n cyfuno cymorth grant cyffredin, neu'n ei ddisodli, â chyllid a gaiff ei ailgylchu, sy'n seiliedig ar fenthyciadau.

Byddwn yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer partneriaethau lleol a fydd yn cynnwys:

- set o dystiolaeth sylfaenol;
- awgrymiadau ar gyfer bwrw ati i ddatblygu achosion busnes, a gofynion sylfaenol ar gyfer cynlluniau;
- eglurhad o sut y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gyllid Ewropeaidd gael ei ddefnyddio o fewn y fframwaith hwn;
- ffurflen gais ar gyfer prosiectau, yn seiliedig ar model busnes y pum achos.

Bydd cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan annatod o'r broses gyfan, a chaiff ystyriaeth ei rhoi i anabledd, oedran, crefydd, rhyw, hawliau dynol, hil a chyfeiriadedd rhywiol. Bydd asesiadau cydraddoldeb yn rhan annatod o strategaethau a chynlluniau.

6.3.4 Cyllid ychwanegol a fydd ar gael yn lleol

Er mwyn cael effaith a fydd wir yn gweddnwidd y sefyllfa, bydd angen targedu'r rhan fwyaf o'n hadnoddau adfywio at ychydig o ganol trefi allweddol, at gymunedau arfordirol a chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Fodd bynnag, mae angen parhau i

fuddsoddi ar lefel gymunedol hefyd. O'r herwydd, byddwn yn cadw cyfres o adnoddau a fydd ar gael i'w defnyddio'n lleol:

- Byddwn yn parhau i gymryd rhan yng Nghronfa Cymunedau'r Arfordir y DU gyfan (£1.45 miliwn yn 2013/14) a fydd yn ein galluogi i ddefnyddio refeniw Ystad y Goron i gefnogi prosiectau twristiaeth a microfusnesau eraill, yn arbennig y rheini sy'n ymwneud â sgiliau morol a threftadaeth forol.
- Byddwn yn parhau â'r cynllun Grant Arloesi Cymunedol a sefydlwyd yn ddiweddar (£1.5 miliwn y flwyddyn), sy'n ein galluogi i gefnogi dulliau newydd ac i nodi a lledaenu arferion gorau. Bydd y cynllun grant yn cyd-fynd â'n tair thema, a gwahoddir ceisiadau gan brosiectau a fydd yn gysylltiedig â:
 - phrosiectau hyperleol i adfywio'r stryd fawr;
 - nodi a lledaenu'r arferion gorau ym maes adfywio;
 - cefnogi Polisi Caffael Llywodraeth Cymru yn y sector adfywio, er mwyn sicrhau cynifer o fanteision cymunedol â phosibl (drwy ofalu bod y gwaith hwn yn cyd-fynd â cherrig milltir y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Fanteision Cymunedol);
 - hwyluso gwaith i greu mentrau cymdeithasol a hybu eu twf;
 - datblygu canol trefi sy'n gwasanaethu ardaloedd gwledig;
 - cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg.
- Yn ddiweddar, cyhoeddassom y byddai swm o £200,000 ar gael i annog Ardaloedd Gwella Busnes newydd. Mae tystiolaeth ddiamheuol ledled y byd bod y model Ardaloedd Gwella Busnes yn cael effaith gadarnhaol ar adfywio a thwf lleol. Yn ddiweddar, comisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad o Ardaloedd Gwella Busnes Abertawe a Merthyr, yr unig ardaloedd o'r fath yng Nghymru ar hyn o bryd. Rydym am ddysgu o'u profiad hwy ac ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth sy'n tyfu. Rydym yn cydnabod y cyfraniad cadarnhaol y gall Ardaloedd Gwella Busnes ei wneud, a hoffem weld mwy o Ardaloedd Gwella Busnes yn datblygu fel rhan o'r fframwaith adfywio newydd.

Ar hyn o bryd, mae'r ffrydiau ariannu hyn yn cael eu cadw ar wahân er mwyn diogelu'r trefniadau llywodraethu penodol sydd ynghlwm wrthynt. Fodd bynnag, ymhen amser, byddwn yn eu symleiddio gymaint â phosibl, ac yn eu hintegreiddio â mecanweithiau cefnogi cysylltiedig.

Gallwn hefyd helpu i greu timau trefi rhithwir drwy ddod ag adnoddau ynghyd o wahanol rannau o'r sector cyhoeddus, yn ogystal â phartneriaid eraill. Bydd y Cydgysylltwyr Lleodedd a gyflogir drwy raglen Cymunedau Trefol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn rhan allweddol o'r timau hyn a, chan ddibynnu ar y blaenoriaethau rhanbarthol, bydd y timau hyn yn cael eu huno â'n timau o arbenigwyr rhanbarthol.

6.4 Monitro a gwerthuso

6.4.1 Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau a gwerthuso

Mae Llywodraeth Cymru, drwy'r Rhaglen Lywodraethu, wedi ymrwymo i Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA) ac rydym yn disgwyl y bydd hyn yn ganolog i unrhyw ddull o weithredu sy'n gysylltiedig ag Adfywio. Bydd swyddogion adfywio yn gweithio gyda phob un perthnasol i sicrhau bod y dull hwn o weithredu yn rhan annatod o bob prosiect. Offeryn rheoli yw RBA a fydd, man lleiaf, yn sicrhau bod y canlyniadau a ddisgwylir (targedau) yn cael eu mynegi'n glir, bod data'n cael eu casglu'n rheolaidd ac yn cael eu cyflwyno, fel y bo modd mynd i'r afael â chwestiynau ynghylch a yw'r

canlyniadau wedi'u cyflawni ai peidio. Hefyd, yn unol â datblygiadau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru, dylid cynnwys yr arferion gorau o ran methodoleg gwarant busnes/ llywodraethu ar ddechrau unrhyw fuddsoddiad i sicrhau bod y gwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau o'r radd flaenaf, ac i ysgogi gwerth am arian.

I ategu'r dull hwn o weithredu, bydd angen gofalu bod gwerthuso hefyd yn rhan annatod o bob prosiect, a hynny o'r dechrau'n deg hyd at y canlyniadau hirdymor. Rydym yn cydnabod na chafodd gwerthuso, hyd yma, le teilwng. Er enghraifft, os buddsoddir yng nghanol trefi, byddem yn disgwyl gweld data sylfaenol a chlir am yr amcanion penodol, rhaglen fonitro a chynllun gwerthuso dros y tymor hwy. Hefyd, yn unol â gofynion y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, rhaid i ni ddangos tystiolaeth glir, yn enwedig o ran yr effaith ar yr economi ac ar swyddi.

Drwy'r Fframwaith hwn, byddwn yn hyrwyddo ac yn sefydlu, o'r dechrau'n deg, fethodoleg sylfaenol ar gyfer mesur gwybodaeth sylfaenol yn ogystal â dull o reoli perfformiad yn lleol. Bydd hyn yn caniatáu i ni werthuso pa mor llwyddiannus yw ein hymdrechion i wrthdroi dirywiad economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a ffisegol ein cymunedau. Byddwn yn monitro'r data perthnasol fesul chwarter i gadw golwg ar y cynnydd a wneir ac i ddylanwadu ar benderfyniadau'r Byrddau Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru. Yn anad dim, dylai'r wybodaeth hon fod yn hawdd ei chasglu a dylai fod ar gael ac yn ddealladwy i amrywiaeth o randdeiliaid mewn anheddiad. Dylai hefyd fod yn fodd i gymharu aneddiadau â'i gilydd.

Bydd y data'n cael eu casglu o brosiectau unigol. Wrth i ni fynd ati i ddatblygu prosiectau, byddwn yn cytuno â noddwr pob un o'r prosiectau hynny pa ddata y bydd angen i ni eu casglu oddi wrthynt. Byddwn yn gweithio gyda'r noddwr i ddatblygu set o fesurau perfformiad priodol a fydd yn cysylltu â'n fframwaith perfformiad, ac yn ei gefnogi. Wedi i ni gymeradwyo dyraniad grant, bydd angen i ni fonitro'r prosiect i'r graddau sy'n briodol a chasglu'r data perthnasol. Bydd rhaid i'r noddwyr gyflwyno adroddiadau cynnydd yn chwarterol, gan wneud hynny hefyd wrth iddynt gyflwyno ceisiadau am daliadau, a phan fydd prosiect yn dod i ben.

Gellir defnyddio'r data hyn mewn amrywiol ffyrdd. Rhaid i ni sicrhau, a byddai ein rhanddeiliaid yn disgwyl i ni gadarnhau hefyd, bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at y dibenion y mae wedi'i gymeradwyo ar eu cyfer. Rhaid sicrhau hefyd fod y prosiect ar y trywydd iawn i gyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt, a'r hyn y bwriedir iddo gyfrannu at gymunedau llewyrchus, iachach, a chymunedau sy'n dysgu.

Byddwn yn sicrhau bod ein gweithgarwch monitro yn gymesur â'r cyllid a gynnigir, a byddwn yn cytuno arnynt ymlaen llaw, gan gynnal trafodaeth dryloyw ac agored â phob parti. Nid Llywodraeth Cymru yn unig sy'n monitro prosiectau, wrth gwrs. Mae gan bob prosiect sy'n cael ei redeg yn effeithiol systemau rheoli cymesur. Byddwn yn gwneud cymaint o ddefnydd â phosibl o'r systemau hyn ac os bydd rhai o'n gofynion yn fwy na'r hyn y byddai disgwyl i brosiect ei gyflawni fel arfer, byddwn yn sicrhau bod pob parti yn cytuno'n llawn â'r gofynion hynny.

Bydd ein dyraniadau cyllid yn cynnwys telerau ac amodau safonol a fydd yn gymwys i bob noddwr. Byddwn yn sicrhau bod y rhain mor syml â phosibl ac yn gymesur â gwerth y grant a ddyfernir. Gallwn hefyd gynnwys amodau penodol mewn llythyr cynnig y bydd angen parhau i'w monitro wedi'r i'r taliad terfynol/holl gyllid gael ei ryddhau. Bydd hyn fel arfer yn wir os byddwn wedi darparu cyllid er mwyn caffael ased neu i wneud gwelliannau sylweddol i ased sy'n bodoli eisoes. Cyfeirir at hynny fel Monitro ar ôl Cwblhau'r Prosiect.

Pan fo hynny'n briodol, byddwn yn defnyddio archwilydd trydydd parti annibynnol i wirio'r cyllid cyffredinol a'r gwariant sy'n gysylltiedig â phrosiectau. Swyddfa Archwilio Cymru fydd yn ymgymryd â'r rôl hon yn achos pob awdurdod lleol neu bartner cyflenwi sector cyhoeddus.

6.4.2 Ein meini prawf ar gyfer monitro

Byddwn yn gwbl glir am ein trefniadau monitro ar ddechrau cyfnod y fframwaith er mwyn i bob parti wybod beth yn union fydd cyfrifoldebau pob un. Gellid defnyddio arian yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ffynonellau eraill o arian cyhoeddus i ariannu ein hymyriadau adfywio a bydd gennym un set o weithgarwch monitro a fydd yn bodloni holl ofynion ein darparwyr cyllid.

Mae monitro yn elfen hanfodol o weithredu ein cytundeb cyllid â noddwyr prosiectau, a gwireddu'r cytundeb hwnnw, a sicrhau bod ein rhaglen ar y trywydd iawn i wrthdroi dirywiad ein cymunedau. Bydd ein gweithgarwch monitro yn cynnwys craffu ar gynnydd a cheisiadau fesul chwarter, a'u gwerthuso, i asesu'r hyn a gyflawnir yn y meysydd a ganlyn:

- tystiolaeth bod datblygu cynaliadwy yn thema ganolog o gam cynllunio'r prosiect i'r adrodd terfynol. Bydd hyn yn cynnwys asesiadau cychwynnol a pharhaus o gyfyngiadau a chyfleoedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, yn ogystal â chynaliadwyedd hirdymor;
- cydweithio rhwng sectorau a sefydliadau, yn arbennig y sectorau preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector;
- ymweliadau â safleoedd i archwilio asedau a'r cynnydd a wnaed;
- ffotograffau cyn ac wedyn;
- adroddiadau ysgrifenedig chwarterol a therfynol gan noddwyr prosiectau neu drydydd partion;
- copïau o bob datganiad i'r wasg;
- ailwampio trefniadau cyllido;
- ymchwilio i gŵynion ffurfiol ac adennill cyllid a ryddhawyd eisoes;
- data meintiol ar ganlyniadau megis hyfforddiant, swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol, mentrau sydd wedi cael cymorth a meini prawf eraill yr ydym yn cadw'r hawl i'w cynnwys yn unol â meini prawf Llywodraeth Cymru neu feini prawf eraill sy'n gysylltiedig â'r cyllid.



7. Yr Amserlen Weithredu

Dyma'r amserlen weithredu:

2013

Ebrill	Cyhoeddi canllawiau ar gyfer buddsoddiad adfywio penodol Recriwtio Grŵp Cynghori'r Gweinidog
Mai	Cylch nesaf y Grant Arloesi Cymunedol – galw am geisiadau
Mehefin	Cyhoeddi ymgyrch Cefnogi'r Stryd Fawr yng Nghymru
Gorffennaf	
Medi	Cyfarfod cyntaf Grŵp Cynghori'r Gweinidog
Hydref	Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau am fuddsoddiad adfywio penodol
Tachwedd	
Rhagfyr	

2014

Ionawr	Uwch-gynhadledd Adfywio Genedlaethol Cyhoeddi'r prosiectau sydd wedi llwyddo yn eu cais i gael buddsoddiad adfywio penodol
Chwefror	
Mawrth	
Ebrill	Dechrau ar y gwaith o gyflawni'r prosiectau

Cylch Gorchwyl Grŵp Cyngori'r Gweinidog

Nod

Nod Grŵp Cyngori'r Gweinidog mewn perthynas â Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yw cynorthwyo'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth i bennu cyfeiriad y fframwaith gwerthuso newydd hwn, a'r modd y caiff ei weithredu a'i werthuso; goruchwyllo'r ffordd y caiff cyllid ei ddyrannu a gwneud argymhellion i'r perwyl hwnnw; asesu polisïau, strategaethau a deddfwriaeth sy'n cael eu datblygu gan Llywodraeth Cymru am eu heffaith ar adfywio a helpu'r Gweinidog i sicrhau bod adfywio yn cael mwy o ystyriaeth ar draws sbectrwm cyfan gweithgarwch Llywodraeth Cymru.

Aelodaeth

Y sawl sydd â phrofiad/diddordeb ym maes adfywio; disgwylir i rai ymgeiswyr fod yn arbenigwyr yn y meysydd canlynol:

- Adfywio canol trefi
- Adfywio arfordirol
- Adfywio cymunedol
- Modelu ariannol arloesol
- Arferion gorau rhyngwladol

Bydd Grŵp Cyngori'r Gweinidog yn cael ei gadeirio gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth a bydd cynrychiolaeth o'r sectorau canlynol yn cyfrannu at waith y grŵp:

- Manwerthu
- Y Trydydd Sector
- Llywodraeth Leol
- Iechyd
- Tai
- Treftadaeth
- Morol
- Addysg Bellach ac Uwch
- Trafnidiaeth
- Cynaliadwyedd
- Yr Amgylchedd
- Cefn Gwlad Cymru
- Caffael
- Twristiaeth

Penodir aelodau Grŵp Cyngori'r Gweinidog drwy broses penodiadau cyhoeddus ond gallai rhai o'r aelodau gael eu cyfethol o sefydliadau partner allweddol eraill.

Cylch Gwaith a Chylch Gorchwyl

Mae cylch gwaith Grŵp Cyngori'r Gweinidog yn cynnwys:

- rhoi arweiniad strategol fel corff cyngori (annibynnol)
- cefnogi Llywodraeth Cymru i weithredu'r Fframwaith Adfywio newydd
- cyfarfod yn chwarterol mewn lleoliadau ledled Cymru
- archwilio'r ceisiadau a'r blaenoriaethau lleol a gwneud argymhellion i'r Gweinidog ar gyfer cymeradwyo cyllid gan ystyried y darlun ledled Cymru
- derbyn adroddiadau cynnydd oddi wrth y canol trefi allweddol, y cymunedau arfordirol a'r clystyrau Cymunedau yn Gyntaf, a rhoi gwybod i'r Gweinidog am y cynnydd a wnaed
- hysbysu'r Gweinidog o feysydd arferion gorau sy'n dod i'r amlwg, opsiynau arloesol ar gyfer cyllido ac unrhyw faterion eraill a allai fod o werth i'r dull gweithredu yng Nghymru
- gwneud sylwadau ar bolisiau, strategaethau a deddfwriaeth sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod anghenion cymunedau a'r Canlyniadau Cenedlaethol yn cael eu hystyried
- hyrwyddo mwy o rannu arferion gorau gan gynnwys yr Uwch-gynhadledd Adfywio, y fenter flynyddol o blaid Cefnogi Canol Trefi a'r digwyddiad a gynhelir yn Llundain
- rhoi cyngor annibynnol ac argymhellion i'r Gweinidog
- llunio adroddiad blynyddol i'r Llywodraeth ar gynnydd y Fframwaith Adfywio newydd.

Bydd pob aelod hefyd yn gyfrifol am:

- sicrhau bod argymhellion a wneir gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog yn dilyn y gweithdrefnau priodol, bod digon o wybodaeth o safon i'w cefnogi a'u bod yn gadarn a bod modd eu hamddiffyn a'u cyfiawnhau
- bod yn gyfarwydd â thystiolaeth a dulliau polisi Adfywio mewn ardaloedd eraill o'r DU a thu hwnt er mwyn dysgu oddi wrthynt a gwerthuso perfformiad cymharol Cymru
- sicrhau bod Grŵp Cyngori'r Gweinidog yn gweithredu o fewn ei gylch gwaith
- arfer barn annibynnol, gofal rhesymol, sgîl a diwydrwydd wrth ymgymryd â dyletswyddau.

Ni fydd gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog bwerau gweithredol. Rôl cyngori yn unig fydd ganddo.

Bydd Grŵp Cyngori'r Gweinidog yn cyngori Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n perthyn i'r cylch gwaith y cytunwyd ar ei gyfer gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth.

Cysylltiadau Polisi Lleodedd Llewyrchus Llawn Addewid

Nod uchelgeisiol y fframwaith Lleodedd Llewyrchus Llawn Addewid yw annog holl adrannau Llywodraeth Cymru i weithredu mewn modd mwy cydgysylltiedig er mwyn sicrhau bod yr effaith ar adfywio yn cael ei hasesu wrth ddyrannu cyllid prif ffrwd.

I'r perwyl hwn, mae Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn cysylltu â phortffolios pob un o Weinidogion eraill Llywodraeth Cymru. Mae gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog rôl gydgysylltu ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru i nodi datblygiadau polisi'r dyfodol a fydd yn cyd-fynd ag egwyddorion craidd Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

Gall Grŵp Cynghori'r Gweinidog benderfynu a fydd am sefydlu is-grwpiau a chyfethol aelodau yn ôl yr amgylchiadau. Gallai ddewis llunio is-grwpiau i edrych ar dasgau penodol, er enghraifft os oes gofyn canolbwyntio ar bolisi penodol neu ar fodd penodol o gyflenwi nad yw'n galw am sylw'r Bwrdd cyfan, neu ar feysydd gwaith trawsbynciol. Bydd y Cadeirydd yn mynd ati'n barhaus i benderfynu sut i neilltuo gwaith a chyfrifoldebau ychwanegol.

Trefniadau'r Ysgrifenyddiaeth

Bydd Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn cael ei gefnogi gan yr Is-adran Cartrefi a Lleoedd sy'n rhan o'r Adran Tai, Adfywio a Threftadaeth.

Fel arfer, caiff cofnodion Grŵp Cynghori'r Gweinidog eu cyhoeddi.

Efallai y bydd angen cyfraniadau ad hoc a phresenoldeb unigolion eraill o bryd i'w gilydd er mwyn hwyluso gwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog.